Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

## Adroddiad arfer dda

Ionawr 2020



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

## Adroddiad arfer dda

## Ionawr 2020

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Cymorth effeithiol i ddisgyblion ag AAA** | **8** |
| Sut mae ysgolion yn nodi anghenion disgyblion ac yn cynllunio ymyriadau | 8 |
| Gosod targedau yn effeithiol | 12 |
| Monitro ac adolygu cynnydd disgyblion | 15 |
| **Ymgysylltu ag eraill i gynorthwyo disgyblion ag AAA** | **19** |
| Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd | 19 |
| Cydweithio rhwng ysgolion i gefnogi pontio | 23 |
| Rhannu arfer dda | 29 |
| Gweithio amlasiantaeth | 35 |
| **Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer AAA** | **38** |
| Arwain ymagwedd ysgol gyfan at y ddarpariaeth ar gyfer AAA | 38 |
| Dysgu proffesiynol a meithrin gallu | 44 |
| Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant | 47 |
| **Atodiad 1: Beth ydym yn ei wybod am ddisgyblion ag AAA yng Nghymru?** | **51** |
| **Atodiad 2: Nodyn ar derminoleg** | **55** |
| **Atodiad 3: Sail y dystiolaeth** | **56** |
| **Atodiad 4: Camau'r Cod Ymarfer – yr ymateb graddedig** | **58** |
| **Atodiad 5: Trosolwg o newidiadau i ddeddfwriaeth AAA** | **60** |
| **Atodiad 6: Rhestr o astudiaethau achos a chameos** | **62** |
| **Geirfa** | **64** |
| **Cyfeiriadau** | **66** |

# Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan y Gweinidog Addysg yn ei llythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2018-2019. Mae'n canolbwyntio ar ddarpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae'r ffocws yn yr adroddiad hwn ar yr arfer effeithiol gan ysgolion o dan y fframwaith statudol presennol a'r trefniadau a amlinellwyd yng Nghod Ymarfer Cymru (2002). Mae hyn yn golygu ein bod, trwy gydol yr adroddiad, yn cyfeirio at AAA a'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig (CydAAA), er y gallai'r ysgolion unigol yr ymwelom â nhw fod yn defnyddio'r termau ADY a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY). Serch hynny, mae'r arfer a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yr un mor gymwys i ddarpariaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac mewn llawer o achosion, mae'n mynd i'r afael yn benodol â llawer o'i nodau a'i dyheadau. I weld trafodaeth bellach am gwestiynau'n ymwneud â therminoleg, gweler Atodiad 2.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o arolygiadau ysgolion ac o ymweliadau â detholiad o ysgolion ledled Cymru, lle mae arolygiadau wedi nodi darpariaeth ac arfer arbennig o gryf ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'n cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer effeithiol drwyddo draw. Gweler Atodiad 3 am fanylion pellach am sail y dystiolaeth.

# Cefndir

## Anghenion addysgol arbennig

Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn ymwneud ag addysg disgyblion ag AAA mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'i seilio ar ddarpariaethau a wnaed yn Neddf Addysg 1996. Mae Adran 312 y Ddeddf yn diffinio plentyn fel un sydd ag AAA os oes ganddo anhawster dysgu sy'n galw am i ddarpariaeth addysgol arbennig gael ei threfnu ar ei gyfer (Prydain Fawr, 1996). Mae gan blant anhawster dysgu:

a) os ydynt yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o blant eraill o'r un oed; neu

b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol; neu

c) os ydynt o dan oedran ysgol gorfodol a'u bod yn dod o fewn y diffiniad yn a) neu b) neu y byddent yn gwneud hynny pe na bai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei threfnu ar eu cyfer (Prydain Fawr, 1996).

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

a) i blant dwy oed neu hŷn, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r, ddarpariaeth addysgol a wneir yn gyffredinol i blant o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir, heblaw am ysgolion arbennig, yn yr ardal;

b) i blant o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath (Prydain Fawr, 1996).

## Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) a'r ymateb graddedig

Roedd Deddf 1996 yn mynnu bod cod ymarfer yn cael ei gynhyrchu i ddarparu arweiniad ymarferol ar gyfer sut dylai awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir ymgymryd â'u swyddogaethau mewn perthynas ag AAA.  Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn rhoi canllawiau manwl yn seiliedig ar y pum egwyddor sylfaenol a ganlyn:

- dylai anghenion plentyn sydd ag AAA gael eu diwallu
- fel rheol, caiff AAA plant eu diwallu mewn lleoliadau ysgol prif ffrwd
- dylid ceisio barn y disgybl a rhoi ystyriaeth iddi
- mae gan rieni a gofalwyr rôl hollbwysig i'w chwarae i gefnogi addysg eu plant
- dylid cynnig cyfle llawn i blant ag AAA gael addysg eang, gytbwys a pherthnasol, wedi'i seilio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

Mae'r cod hefyd yn amlinellu'r ymateb graddedig y dylai ysgolion ei ddarparu lle nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol, a lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu 'bod ar y disgybl angen help y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael fel arfer yn y dosbarth neu'r pwnc hwnnw' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002, tud.50).  Mae'r Cod yn eiriol tri cham ymyrryd, yn seiliedig ar y gofyniad i ysgolion wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol, cyn dod i mewn ag arbenigedd o'r tu allan i'r ysgol.

Y tri cham ymyrryd o dan yr ymateb graddedig yw:

- Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol – lle mae ysgolion yn ceisio darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion eu hunain
- Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy – lle mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd a chan gynnwys asiantaethau allanol
- Asesiadau statudol a datganiadau – lle mae'r awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu pecyn cymorth penodedig

Mewn ysgolion, bydd disgyblion ag AAA yn cael eu cofnodi ar gofrestr AAA yr ysgol o dan un o'r camau hyn.  Gellir gweld mwy o wybodaeth am gamau gwahanol yr ymateb graddedig yn Atodiad 4.

## Dysgwyr ôl-16

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000) yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr dros 16 oed nad ydynt yn yr ysgol. Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r term 'anawsterau dysgu a/neu anableddau' (ADA) yn hytrach nag AAA. Mae'r diffiniad o ADA, i bob pwrpas, yr un fath ag ar gyfer AAA, sef p'un a yw dysgwyr yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o blant yn eu grŵp oedran, neu a oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio'r addysg a'r hyfforddiant a gynigir.

## Diwygio anghenion dysgu ychwanegol

Yn Rhagfyr 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), yn dilyn cyfres o adolygiadau, ymchwiliadau gan bwyllgorau, cynigion polisi, ymgynghoriadau, Papur Gwyn a Bil drafft a geisiodd fynd i'r afael ag ymdeimlad cynyddol ei bod hi'n hen bryd diwygio'r fframwaith cyfreithiol presennol. Pasiwyd y Bil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Rhagfyr 2017. Cafodd Gydsyniad Brenhinol yn Ionawr 2018 a daeth yn Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn 2018 ('y Ddeddf').

Mae'r Act yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n disodli'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag AAA, a'r trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADA mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. O dan y Ddeddf, bydd y term AAA yn cael ei ddisodli â'r term ADY. Bydd y term 'darpariaeth addysgol arbennig' yn cael ei ddisodli â 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).

Disgwylir y bydd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ADY yn cael eu gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, a disgwylir i hynny redeg o Fedi 2021 i Awst 2024. Bydd y cyfnod gweithredu yn rhedeg ochr yn ochr â chyflwyno rhaglen drawsnewid ADY ehangach. Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae deddfwriaeth AAA bresennol yn parhau i fod yn gymwys, a bydd yn parhau felly hyd nes daw'r cyfnod gweithredu i ben.

Ceir rhagor o wybodaeth am y newidiadau allweddol a gyflwynir gan y Ddeddf yn Atodiad 5.

# Prif ganfyddiadau

## Cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA

1 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i sicrhau eu bod yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Un elfen allweddol o'r broses hon yw'r cydweithio agos rhwng ysgolion a lleoliadau sy'n eu galluogi i rannu gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA wrth iddynt symud o un cyfnod o'u haddysg i'r nesaf. Mae'r trefniadau hyn yn helpu sicrhau bod dealltwriaeth drylwyr gan yr holl staff o anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol.

2 Lle mae disgyblion yn derbyn cymorth gan asiantaethau allanol, fel gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae staff yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion y plentyn. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i'r wybodaeth mewn adroddiadau a ddarparwyd gan arbenigwyr, fel seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol, wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn.

3 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ofalus i gynllunio ymyriadau sy'n cael eu cydweddu'n ofalus ag anghenion disgyblion unigol. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o ymyriadau sy'n adlewyrchu anghenion cymhleth eu disgyblion. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn gweithio gyda staff arbenigol o'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd i gynllunio a gweinyddu cyflwyno'r ymyriadau hyn yn unol â gofynion pob plentyn.

4 Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn gosod targedau defnyddiol a phriodol ar gyfer disgyblion yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau). Mae staff yn ystyried yr ystod eang o wybodaeth sydd ar gael am gyrhaeddiad disgyblion i osod targedau heriol sy'n perthnasu'n dda ag anghenion a dyheadau disgyblion ar gyfnodau gwahanol yn eu dysgu. Maent yn ymgynghori'n ofalus gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr i ffurfio targedau sydd mor ddefnyddiol ag y bo modd i'r disgybl, ac yn trafod strategaethau i helpu teuluoedd fynd i'r afael â'r targedau hyn gartref.

5 Mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn gryf, ceir trefniadau cadarn i fonitro ac olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion yn yr ysgol. Mewn llawer o ysgolion, mae monitro cynnydd ar gyfer disgyblion ag AAA yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o les disgyblion a beth sy'n bwysig i bob plentyn. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu mewn meysydd fel ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltiad mewn gwersi, a'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion tuag at y targedau yn eu CAUau. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth am y cynnydd a wneir gan ddisgyblion tuag at eu nodau therapiwtig, yn darparu golwg fwy cyflawn i staff o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud.

## Ymgysylltu ag eraill i gefnogi disgyblion ag AAA

6 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ceir prosesau datblygedig i ymgysylltu

â rhieni, gofalwyr a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd i staff feithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr, ennyn eu hymddiriedaeth a'u galluogi i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer eu plant.

7 Mae bron yr holl ysgolion yn datblygu partneriaethau cryf gydag ysgolion eraill a darparwyr addysg, yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae'r partneriaethau hyn yn sicrhau bod trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ag AAA yn gadarn ac yn galluogi ysgolion i rannu arfer dda gyda staff mewn ysgolion eraill ac i ddysgu oddi wrthynt.

8 Ym mron pob ysgol lle ceir dosbarthiadau arbenigol neu ganolfannau adnoddau, mae'r cyfathrebu rhwng y staff yn y ddau leoliad yn gryf ac yn cefnogi symudiadau disgyblion o fewn yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn y ganolfan adnoddau yn gweithio gyda staff yng ngweddill yr ysgol i rannu'u gwybodaeth arbenigol a hyrwyddo strategaethau i'w cynorthwyo o amgylch yr ysgol.

9 Ym mron pob ysgol, mae gweithio amlasiantaeth yn rhan hanfodol o gymorth yr ysgol o ddydd i ddydd i ddisgyblion ag AAA. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys ystod eang o asiantaethau allanol. Maent yn ymateb yn feddylgar i'r cyngor gan y gweithwyr proffesiynol hyn er mwyn llywio cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a gosod targedau yn CAUau disgyblion.

10 Un elfen allweddol o ddefnyddio gwasanaethau arbenigol yn llwyddiannus yw medr staff yn yr ysgol wrth gwblhau dogfennau atgyfeirio yn brydlon. Lle mae ysgolion yn fwyaf llwyddiannus o ran sicrhau bod y cymorth hwn ar waith, maent yn eiriol yn gryf dros eu disgyblion a theuluoedd ac yn herio'n gadarn pan na fydd y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion disgyblion.

### Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer AAA

11 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth ac ethos cynhwysol iawn sy'n pennu dyheadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu galluoedd a'u hanghenion. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar ddarparu cyfle cyfartal i bob disgybl, ac mae'n treiddio drwy'r ysgol gyfan. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cyfleu'r weledigaeth hon yn gryf ac yn sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddisgyblion ag AAA. O ganlyniad, mae'r arweinwyr hyn yn hyrwyddo datblygu amgylcheddau gofalgar a chefnogol, lle caiff disgyblion eu hannog i dyfu fel unigolion a lle maent yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u mannau cychwyn.

12 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant arbenigol sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer staff er mwyn cefnogi disgyblion ag AAA. Yn yr ysgolion hyn, mae'r CydAAA yn gweithio'n agos gydag uwch arweinwyr eraill i ddatblygu medrau staff, ar sail dealltwriaeth drwyadl o anghenion disgyblion unigol. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cysylltu'n dda â phrosesau rheoli perfformiad, ac yn galluogi'r holl staff i ddatblygu'u dealltwriaeth o AAA yn gyffredinol, yn ogystal â'r arbenigedd penodol i gefnogi disgyblion unigol.

13 Ym mron pob ysgol, mae arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd disgyblion ag AAA yn ofalus, ac yn addasu'u darpariaeth yn gyfatebol. Yn yr ysgolion hyn, mae hunanwerthuso effeithiol yn dechrau gyda dealltwriaeth gadarn o anghenion pob

disgybl, a pharodrwydd i addasu'r ddarpariaeth lle bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn unol â'u galluoedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn llywio hyfforddiant staff. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn adolygu anghenion disgyblion a set medrau staff cymorth a staff addysgu yn rheolaidd.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Wella ansawdd targedau yn CAUau disgyblion er mwyn hyrwyddo cynnydd disgyblion mewn dysgu ac annibyniaeth

A2 Sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso yn rhoi mwy o sylw i’r cynnydd a wna disgyblion ag AAA o ran eu hanghenion, eu galluoedd a’u mannau cychwyn unigol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A3 Gynorthwyo ysgolion i gael y gwasanaethau arbenigol allanol y mae eu hangen arnynt i hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion ag AAA

A4 Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion eraill a gynhelir yn yr awdurdod lleol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol yn ystod cyfnod gweithredu’r trefniadau statudol newydd er mwyn cefnogi disgyblion ag ADY

## Cymorth effeithiol i ddisgyblion ag AAA

### Sut mae ysgolion yn nodi anghenion disgyblion ac yn cynllunio ymyriadau

14 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i sicrhau eu bod yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Un elfen allweddol o hyn yw'r cydweithio agos rhwng ysgolion a lleoliadau sy'n eu galluogi i rannu gwybodaeth am ddisgyblion ag AAA wrth iddynt symud o un cyfnod o'u haddysg i'r nesaf, er enghraifft, o leoliad nas cynhelir neu feithrinfa i ysgol gynradd, neu o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Mae'r trefniadau cadarn hyn yn helpu sicrhau bod dealltwriaeth drylwyr gan yr holl staff o anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol.

15 Lle mae disgyblion yn derbyn cymorth gan asiantaethau allanol, fel gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mae staff yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion y plentyn. Mewn llawer o ysgolion cynradd, er enghraifft, mae staff yn cysylltu'n effeithiol gyda chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn gallu bodloni AAA plentyn cyn iddo ymuno â'r ysgol, ac i ddarparu cefnogaeth gynnar i rieni, gofalwyr a theuluoedd. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i'r wybodaeth mewn adroddiadau a ddarparwyd gan arbenigwyr, fel seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol, wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn.

16 Lle mae gan ysgolion cynradd feithrinfa, lleoliad nas cynhelir neu ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar y safle, mae staff yn yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o wybodaeth o'r lleoliadau hyn ac o raglenni ymgysylltu â theuluoedd i gaffael gwybodaeth ddefnyddiol am y plentyn cyn iddo ymuno â'r ysgol. Yn ogystal, maent yn gwahodd teuluoedd, rhieni a gofalwyr darpar ddisgyblion i'r ysgol er mwyn eu helpu i ddod i adnabod yr ysgol, neu maent yn gwneud ymweliadau cartref â'r teulu er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol.

17 Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol gynradd, mae staff yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn yr arolwg yn defnyddio ystod eang o asesiadau i nodi mannau cychwyn disgyblion mewn meysydd fel llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd, yn ogystal â materion yn ymwneud â lles disgyblion. Mae'r asesiadau hyn yn darparu ffynhonnell wybodaeth gyfoethog i staff am alluoedd ac anghenion disgyblion ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys agweddau fel datblygiad medrau cymdeithasol disgyblion. Lle mae anghenion mwy cymhleth neu anawsterau dysgu penodol gan ddisgyblion, fel dyslecsia a dyscalcwlia, mae ysgolion yn dibynnu ar fewnbwn gan asiantaethau arbenigol o fewn yr awdurdod lleol i asesu'u hanghenion a chynllunio ymyriadau addas.

18 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ofalus i gynllunio ymyriadau sy'n cael eu cydweddu'n ofalus ag anghenion disgyblion. Er enghraifft, lle mae disgyblion yn gweithio islaw'r lefelau disgwyliedig mewn llythrennedd a rhifedd, mae trefniadau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion i hybu datblygu'u medrau drwy raglenni ymyrryd mewn meysydd penodol fel darllen, sillafu

neu resymu rhifyddol. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach a arweinir gan staff cymorth, neu gyda chymorth un i un y tu allan i'r ystafell ddosbarth, i wella medrau penodol. Mewn lleiafrif o achosion, caiff disgyblion eu cefnogi gan staff ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

19 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod eang o ymyriadau sy'n adlewyrchu anghenion mwy cymhleth eu disgyblion. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae gan ysgolion ddosbarth arbenigol awdurdod lleol ynghlwm, lle mae ganddynt gyfrannau uchel o ddisgyblion â datganiadau AAA, neu lle mae gan staff sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion ag AAA arbenigedd datblygedig iawn. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys rhaglenni datblygu iaith, ymyriadau'n seiliedig ar anogaeth, neu raglenni therapiwtig, fel therapi lleferydd ac iaith, ffisiotherapi, neu therapi galwedigaethol. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn gweithio'n effeithiol iawn gyda staff arbenigol o'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd i gynllunio a gweinyddu cyflwyno'r ymyriadau hyn yn unol â gofynion pob plentyn.

20 Yn yr ysgolion hyn, mae staff sy'n cyflwyno ymyriadau wedi'u hyfforddi'n dda ac mae cyfrifoldebau athrawon, staff cymorth a'r CydAAA yn glir. Lle mae cyfrifoldeb gan staff ysgolion i gyflwyno rhaglenni therapiwtig neu feddygol, maent yn elwa o hyfforddiant penodol a chydweithio agos gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Ceir llinellau cyfathrebu clir rhwng y rhai sy'n cynllunio, cyflwyno a monitro'r ymyriadau, gan gynnwys staff arbenigol a staff therapiwtig, ac athrawon dosbarth. Mae hyn yn helpu sicrhau bod staff, mewn llawer o ysgolion, yn monitro llwyddiant yr ymyriadau hyn yn drwyadl.

21 Mae Ysgol Gyfun Bryntirion yn darparu cymorth o ansawdd uchel i ddisgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA). Mae asesiadau cadarn pan fydd disgyblion yn ymuno â'r ysgol yn galluogi staff i nodi ymyriadau addas sy'n cefnogi cynnydd disgyblion yn llwyddiannus iawn.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Gyfun Bryntirion**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun gymysg 11-18 cyfrwng Saesneg a gynhelir gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yw Ysgol Gyfun Bryntirion. Yn Ionawr 2019, roedd 1,204 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 203 yn y chweched dosbarth. Mae 12.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae gan oddeutu 20% o ddisgyblion AAA, ac mae gan ychydig dros 1% o ddisgyblion ddatganiad o AAA. Mae yna ganolfan adnoddau cyfathrebu ynghlwm â'r ysgol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig.

**Gweithredu**

Un cryfder arbennig yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag AAA yw eu dull o weithio gyda disgyblion sydd â diagnosis o ASA. Mae'r ysgol yn darparu cymorth eithriadol i ddisgyblion ar y sbectrwm awtistig ac i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis. Mae hyn yn golygu bod rhieni a gofalwyr plant ar y sbectrwm awtistig o du allan i'r dalgylch yn dewis anfon eu plant i'r ysgol yn aml. Mae'r disgyblion wedi'u hintegreiddio'n llawn mewn dosbarthiadau

prif ffrwd ac maent yn mynychu'r ganolfan gyfathrebu i gael cymorth ymyrraeth neu i ymgysylltu â gweithgareddau cymdeithasol amser cinio. Mae'r holl athrawon, staff cymorth, llywodraethwyr a staff ategol wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Yn yr un modd, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymgysylltu â gwersi addysg bersonol a chymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a'r modd y gallant gefnogi disgyblion ar y sbectrwm awtistig.

Mae systemau cynhwysfawr a chadarn gan yr ysgol sy'n galluogi staff i nodi anghenion disgyblion yn effeithiol iawn pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys sgrinio datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu'r holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 fel rhan o'r drefn arferol. Mae'r ysgol yn grwpio disgyblion yn ôl angen yn dilyn sgrinio, ac yn rhoi ystod o ymyriadau gwerthfawr ar waith i ddiwallu angen unigol, yn cynnwys rhaglenni grŵp a rhaglenni un i un. Mae nodi anghenion iaith a chyfathrebu yn gynnar yn galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth personol targedig iawn.

Un rhan bwysig o'r cymorth hwn yw helpu disgyblion i drosglwyddo'u medrau iaith yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r CydAAA yn darparu adnoddau defnyddiol i athrawon i helpu disgyblion ag AAA ddatblygu'u medrau iaith a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys rhestri gwirio a chyngor buddiol i staff addysgu ar sut i gefnogi disgyblion os ydynt yn cael anhawster mynegi'u hunain yn glir. Mae staff ar draws yr ysgol yn olrhain yn drwyadl y cynnydd a wneir gan ddisgyblion sy'n derbyn cymorth ar gyfer iaith a chyfathrebu, ac mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn cynllunio ystod o ymyriadau i sicrhau bod disgyblion ag AAA, ac yn arbennig y rhai ag ASA, yn cael ystod addas o gymorth dysgu a chymorth personol. Mae hyn yn eu helpu i ffynnu mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Er enghraifft, mae grwpiau cymorth medrau cymdeithasol yn helpu disgyblion ag ASA i ddatblygu'u cyfathrebu cymdeithasol. Yn aml, mae disgyblion yn ymuno â'r grŵp hwn oherwydd anawsterau ymddygiadol sy'n gysylltiedig â medrau cymdeithasol gwael. Pan fyddant yn dod i mewn i'r grŵp, mae disgyblion yn cwblhau asesiad i sicrhau bod yr hwylusydd yn deall man cychwyn pob disgybl. Hefyd, mae hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion fyfyrio ar eu medrau cymdeithasol. Lle mae disgyblion yn ei chael hi'n anodd mynychu gweithgareddau grŵp, mae'r ysgol yn eu helpu i archwilio'r sbardunau ar gyfer eu gorbryder ac yn gwneud addasiadau rhesymol i'w galluogi i gyfranogi'n hyderus yn y diwrnod ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi trefnu bod cyfleusterau newid amgen ar gael i ddisgyblion yn ystod gwersi addysg gorfforol.

**Deilliannau**

Mae bron yr holl ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys y rhai ag ASA, yn elwa'n sylweddol o'r cymorth effeithiol a phersonol iawn a dderbyniant. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion ag AAA yn cyflawni'n dda iawn ac yn gwneud cynnydd eithriadol o'u mannau cychwyn. Mae ychydig o ddisgyblion ASA wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i addysg uwch, ac mae

bron yr holl ddisgyblion ag AAA yn symud ymlaen i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth briodol.

Mae disgyblion yn falch i siarad am eu gwahaniaethau unigol ac yn rhannu'r modd y maent wedi cael cymorth eithriadol gan yr ysgol.

22 Yn Ysgol Gynradd Brynnau, mae prosesau asesu cychwynnol trwyadl yn golygu bod dealltwriaeth gryf gan staff o fannau cychwyn disgyblion, ac mae hyn yn eu cynorthwyo'n effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ag AAA.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Gynradd Brynnau**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Brynnau ym Mrynna, ger Pont-y-clun yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Yn Ionawr 2019, roedd 239 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 38 o blant meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae 15.6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae AAA gan ryw 10% o ddisgyblion. Mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol, mae staff yn nodi cryfderau ac anghenion disgyblion drwy asesiadau sylfaenol trwyadl a phrofion diagnostig. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio offeryn diagnostig cynhwysfawr i asesu holl fedrau cyfathrebu disgyblion. Mae canlyniadau'r prawf hwn, ynghyd â gwybodaeth o'r ddarpariaeth cyn-ysgol, yn sicrhau bod athrawon yn nodi'n gyflym iawn y disgyblion y mae arnynt angen cymorth yn y dosbarth, cymorth mewn grŵp bach neu gymorth ychwanegol un i un.

Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, mae athrawon a staff cymorth yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn erbyn eu mannau cychwyn mewn agweddau allweddol ar lythrennedd, rhifedd a lles. Mae hyn yn golygu gwybodaeth o'r profion hyn, yn ogystal â chanlyniadau asesiadau ac arsylwadau athrawon, fod gan staff ddealltwriaeth dda iawn o anghenion penodol eu disgyblion. Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yr ysgol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd o gynnydd disgyblion i drafod perfformiad a chynnydd pob disgybl. O ganlyniad, mae'r ysgol yn nodi unrhyw ddisgybl sy'n methu gwneud y cynnydd disgwyliedig yn brydlon, ac yn rhoi ymyriadau addas ar waith.

Cyn belled ag y bo modd, cynhelir rhaglenni ymyrryd yn yr ystafell ddosbarth fel rhan o weithgareddau dysgu arferol y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi sefydlu ardal 'Cwtsh' ddeniadol ac esmwyth hefyd, lle mae staff cymorth yn darparu cymorth targedig i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion mewn lleoliad tawel. Mae staff tra hyfforddedig a phrofiadol yn cyflwyno'r rhaglenni hyn yn fedrus a gyda

sensitifrwydd.  Gwnânt gofnodion manwl o gynnydd disgyblion, ac maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn effeithiol gydag athrawon dosbarth fel eu bod yn gallu datblygu'r medrau hyn yn yr ystafell ddosbarth.  Mae dealltwriaeth glir o ddeilliannau disgwyliedig a meini prawf llwyddo yn galluogi staff i integreiddio disgyblion yn ôl yn y dosbarth cyn gynted ag y bo modd.

Mae arweinwyr yr ysgol yn olrhain cyrhaeddiad disgyblion o fewn y rhaglenni hyn ac ar draws y cwricwlwm yn ofalus.  Mae map o ddarpariaeth yr ysgol gyfan yn rhoi manylion y cymorth sydd ar gael, gwybodaeth am y disgyblion sydd wedi cael cymorth a'r cynnydd y maent wedi'i wneud o ganlyniad i hynny.  Mae hyn yn galluogi arweinwyr i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd cymorth yn effeithiol iawn.

**Deilliannau**

Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag AAA gynnydd gwell na'r disgwyl o ganlyniad i'r cymorth a gânt.

Mae disgyblion yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a dderbyniant.  Mae disgyblion hŷn yn glir iawn ynglŷn â'r modd y mae'r ysgol wedi cefnogi'u hanghenion a'u helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu.

## Gosod targedau yn effeithiol

23 Mae fformat a chynnwys CAUau disgyblion yn amrywio'n eang ar draws yr ysgolion yr ymwelom â nhw, yn enwedig o ran nifer y targedau ac ystod y meysydd medrau yr ânt i'r afael â nhw.  Mae'r amrywiadau hyn yn briodol yn gyffredinol, am eu bod yn ymwneud yn fanwl ag anghenion unigolion neu grwpiau o ddisgyblion.  Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae CAUau yn cynnwys targedau ar gyfer llythrennedd a rhifedd, yn ogystal ag ar gyfer meysydd pwysig fel medrau cymdeithasol, medrau byw'n annibynnol, parodrwydd i ddysgu, neu les disgyblion.  Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn addasu fformat y cynlluniau hyn yn greadigol i osod targedau o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion sy'n hyrwyddo datblygiad disgyblion unigol yn y dyfodol yn llwyddiannus iawn.

24 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i ystod lawn y wybodaeth sydd ar gael am gyrhaeddiad disgyblion i osod targedau heriol sy'n perthnasu'n dda ag anghenion a dyheadau disgyblion ar gyfnodau gwahanol yn eu dysgu.  Er enghraifft, mae targedau yng nghyfnod allweddol 4 yn aml yn canolbwyntio'n briodol ar helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.  Mewn ysgolion lle mae gosod targedau yn fwyaf effeithiol, mae targedau'n cefnogi datblygu annibyniaeth disgyblion ar draws ystod eang o fedrau, ac yn perthnasu'n dda â'u diddordebau a'r amcanion ar eu datganiadau o AAA.

Yn **Ysgol Bae Baglan**, mae staff yn defnyddio CAUau yn dda i gyflawni gweledigaeth yr ysgol o roi'r medrau bywyd i ddisgyblion ag AAA i fod yn wydn ac annibynnol. Mae targedau ar CAUau disgyblion yn mynd i'r afael â deilliannau o dan y pedwar pennawd: iechyd a lles; cartref ac annibyniaeth; medrau addysg a dysgu; a bywyd cymdeithasol: fy ffrindiau, fy nheulu a bywyd yn y gymuned. Maent yn cynnwys ffocws cryf ar agweddau fel datblygu medrau byw'n annibynnol disgyblion, medrau teithio a medrau cymdeithasol, yn ogystal â chynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddeall sut i helpu'u plant gyfnerthu'r medrau hyn gartref. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ymarfer y medrau hyn o fewn amserlen yr ysgol, er enghraifft drwy sesiynau blasu bwyd er mwyn ehangu goddefiad disgyblion o fwydydd gwahanol, neu drwy'r awr gyfoethogi ar ôl ysgol a gynhelir yn wythnosol. Mae'r sesiwn hon yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau i ddisgyblion sy'n eu galluogi i ddatblygu medrau y tu allan i'r ystafell ddosbarth; er enghraifft, mae disgyblion oedran uwchradd yn mynychu bwyty lleol i ymarfer archebu bwyd a thrafod arian. O ganlyniad i'r ffocws cryf hwn ar ddatblygu annibyniaeth, mae dealltwriaeth gryf gan ddisgyblion o'u hanghenion a'u gofynion eu hunain ac maent yn gallu eiriol drostyn nhw'u hunain yn well wrth gynllunio'u dewisiadau bywyd yn y dyfodol.

25 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, caiff targedau eu gosod gan staff sy'n adnabod y disgyblion yn dda ac sydd â phrofiad addas mewn gosod targedau. Yn gyffredinol, lle nad yw'r CydAAA yn uniongyrchol gysylltiedig â gosod targedau ar gyfer pob disgybl, mae'n goruchwylio'r broses ac yn gyfrifol am fonitro eu hansawdd. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gwneud defnydd da o wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau allanol a gweithwyr proffesiynol, fel seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol, i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu'r medrau y mae eu hangen arnynt i ddilyn y cwricwlwm. Mae'r dull hwn sydd wedi'i gydlynu'n dda yn helpu ysgolion sicrhau bod targedau'n mynd i'r afael â'r hyn sydd bwysicaf i bob disgybl.

26 Mae llawer o ysgolion yn ymgysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr wrth osod ac adolygu targedau unigol disgyblion, er enghraifft mewn boreau agored a chyfarfodydd adolygu blynyddol. Maent yn ymgynghori'n ofalus â rhieni a gofalwyr i ffurfio targedau sy'n fwyaf defnyddiol i'r disgybl, ac yn trafod strategaethau i'w helpu i fynd â'r afael â'r targedau hyn gartref. Lle nad yw rhieni a gofalwyr yn gallu mynychu cyfarfodydd gosod targedau, mae ysgolion yn cynnig cyfle iddynt gyfrannu drwy anfon y CAU gartref i ofyn am ymatebion.

27 Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[1] i gynnwys disgyblion yn dda wrth osod ac adolygu'r targedau yn eu cynlluniau. Mae'r dulliau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o'u targedau. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Brynnau, mae athrawon yn ysgrifennu targedau mewn iaith sy'n hawdd i'r disgybl ei deall. Mae disgyblion yn cofnodi'u targedau yn eu llyfrau, ac yn cofnodi pan fyddant wedi cyflawni'r targed. Yn Ysgol Gymuned Rhosybol, mae disgyblion yn cofnodi'u cynnydd yn erbyn eu targedau mewn llyfrau targedau, a

[1] I gael diffiniad o hwn a thermau eraill a ddefnyddir trwy gydol yr adroddiad, cyfeiriwch at yr eirfa

gyflwynir yn y feithrinfa ac y bydd disgyblion yn eu defnyddio hyd nes eu bod yn gadael ym Mlwyddyn 6. Yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, mae disgyblion yn cario'u targedau gyda nhw i bob gwers ar 'basbort disgybl'. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion a staff sy'n gweithio gyda nhw yn gallu mynd atynt trwy gydol y diwrnod.

28 Mae'r arferion hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r cynnydd a wnânt dros gyfnod yn erbyn meysydd datblygu sy'n bwysig iddynt. O ganlyniad, mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion yn siarad yn hynod gadarnhaol am y cynnydd y maen nhw wedi'i wneud oherwydd y cymorth a gawsant gan yr ysgol. Yn ogystal, fe wnaethant gadarnhau sut mae gwaith yr ysgol gyda rhieni a gofalwyr wedi helpu'u teuluoedd i gael dealltwriaeth well o'u hanghenion ac i gefnogi'u dysgu yn fwy effeithiol gartref.

Yn **Ysgol Gynradd Parcyrhun**, mae'r CydAAA, gan weithio gydag athrawon a staff cymorth, yn gosod targedau penodol a mesuradwy ar gyfer disgyblion ar sail gwybodaeth gan ystod o randdeiliaid. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â disgyblion, teuluoedd ac asiantaethau allanol yn sicrhau bod targedau'n mynd i'r afael ag anghenion mwyaf pwysig a pherthnasol disgyblion. Mae proffiliau un dudalen a CAUau yn sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r disgyblion hyn yn gwbl ymwybodol o'u targedau, eu cyflawniad blaenorol a'u hanghenion wrth gynllunio profiadau dysgu ac ymyrraeth bwrpasol. Mae'r athro sydd â gofal o'r ganolfan adnoddau ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw yn cyfarfod hefyd ag athrawon prif ffrwd yn unigol bob wythnos er mwyn paratoi ar gyfer disgyblion sy'n cyfranogi mewn gwersi prif ffrwd. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr yn ymwybodol iawn o dargedau disgyblion a'u bod yn eu cynnwys yn dda wrth gynllunio gwersi.

Mae trefniadau effeithiol gan yr ysgol i fonitro ac adolygu targedau disgyblion yn rheolaidd. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar werthuso cynnydd disgyblion, yn ychwanegol at fonitro addasrwydd ymyrraeth ar gyfer unigolion. O ganlyniad, gallant addasu darpariaeth yn unol ag anghenion personol disgyblion wrth i'r rhain ddatblygu dros gyfnod.

29 Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae ansawdd targedau yn CAUau disgyblion yn rhy amrywiol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw gosod targedau yn mynd i'r afael yn ddigon da ag anghenion unigol disgyblion, ac mae'n colli cyfleoedd i ddarparu cofnod dibynadwy o gynnydd disgyblion dros gyfnod. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod targedau naill ai'n rhy eang neu'n canolbwyntio ar agweddau penodol iawn ar lythrennedd a rhifedd. Yn y ddau achos, daw'n anodd i athrawon gynorthwyo disgyblion i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm neu mewn cyd-destunau sy'n cefnogi datblygu'u hannibyniaeth.

## Monitro ac adolygu cynnydd disgyblion

30 Mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn gryf, ceir trefniadau llwyddiannus i fonitro ac olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn casglu ac yn dadansoddi data cynhwysfawr ar gynnydd yr holl ddisgyblion. Mae hyn yn helpu athrawon ac arweinwyr i gynllunio'n fwy effeithiol i gefnogi disgyblion ag AAA i wneud cynnydd wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

31 Mae systemau i olrhain cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd wedi'u seilio'n gadarn ar fframweithiau cenedlaethol, fel y cyfnod sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol neu ddeilliannau arholiadau. Yn ogystal, lle mae disgyblion yn cyfranogi mewn ymyriadau i wella agweddau ar lythrennedd a rhifedd, mae hyn yn rhoi data gwerthfawr i ysgolion am gynnydd disgyblion mewn meysydd medrau targedig, fel darllen, sillafu neu resymu rhifyddol. Mae'r ffocws hwn yn helpu nodi disgyblion sy'n gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl ar gyfer eu grŵp oedran, ac yn cynorthwyo staff i nodi lle gallai disgyblion fod yn cael anawsterau mewn dysgu sy'n fwy nag anawsterau eu cyfoedion.

32 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae'r broses o fonitro disgyblion ag AAA yn ymestyn y tu hwnt i'r fframweithiau hyn ac olrhain ymyriadau penodol, i gwmpasu ymagwedd holistaidd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o les y disgybl a beth sy'n bwysig i'r plentyn. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu mewn meysydd fel ymddygiad, presenoldeb ac ymgysylltiad mewn gwersi. Mae trefniadau cadarn gan lawer o ysgolion i adolygu cynnydd disgyblion tuag at y targedau yn eu CAUau. Mae'r wybodaeth a gasglant, ynghyd â thystiolaeth o'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion tuag at eu nodau therapiwtig, yn darparu golwg fwy cyflawn i staff o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Mae hyn yn helpu llywio adolygiadau blynyddol disgyblion o gynnydd ac yn galluogi staff i ddarparu cymorth priodol i ddisgyblion i gael mynediad at ddysgu ym mhob cyfnod fel eu bod yn gwneud cynnydd tuag at y cam nesaf o'u haddysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn **Ysgol Gynradd Bontnewydd**, mae'r pennaeth, sydd hefyd yn gweithio fel y CydAAA, wedi datblygu systemau cadarn i fonitro cynnydd disgyblion a gwerthuso effaith ymyriadau yn effeithiol iawn. Mae'r holl staff yn gwybod beth yw anghenion disgyblion unigol ac yn eu deall yn dda. Defnyddiant ddata asesu, gwybodaeth unigol am y disgyblion, ac adroddiadau gan arbenigwyr, fel seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol, i greu proffiliau un dudalen sy'n amlinellu anghenion pob disgybl yn glir.

Mae'r pennaeth wedi diffinio'n glir sut i gynorthwyo disgyblion â sgorau safonedig isel ar gyfer llythrennedd a rhifedd, neu'n sy'n cael anhawster dilyn ymyriadau dosbarth cyfan. Mae'r camau y dylai staff eu cymryd yn nodi tri cham cymorth penodol. Mae'r strwythur buddiol hwn yn darparu arweiniad defnyddiol i staff addysgu o ran pa bryd y mae angen iddynt leihau neu ddwysáu lefel yr ymyrraeth, gan gynnwys pa bryd ddylai'r ysgol drefnu asesiad gan y seicolegydd addysg.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus iawn ac yn adolygu effeithiolrwydd ymyriadau yn rheolaidd. Lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, caiff ymyrraeth ei thynnu'n ôl. Os nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd o fewn graddfa amser benodedig, maent yn symud ymlaen i'r cam ymyrraeth nesaf. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn parhau i dderbyn ymyriadau nad ydynt yn effeithiol. Mae graddfeydd amser clir ar gyfer cynnwys asiantaethau allanol, yn golygu bod yr ysgol bob amser yn rhoi cynnig ar ystod o strategaethau priodol cyn gofyn am help allanol. O ganlyniad i'r prosesau cadarn hyn, mae'r cymorth i ddisgyblion ag AAA yn effeithiol iawn ac mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd rhagorol.

33 Mae staff yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley wedi datblygu arferion cyson ac effeithiol i fonitro ac adolygu cynnydd disgyblion ag AAA. Mae'r cydweithio hwn sy'n cael ei gydlynu'n fanwl yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cryf.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun ar gyfer disgyblion 11-16 oed ym Merthyr Tudful yw Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley. Yn Ionawr 2019, roedd 507 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 20.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae AAA gan oddeutu 27% o ddisgyblion, ac mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Mae prosesau cryf gan yr ysgol i gefnogi cynnydd disgyblion unigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn ymuno â'r

ysgol gyntaf, mae staff yn defnyddio ystod eang o asesiadau i ategu'r wybodaeth a gesglir o ysgolion cynradd i ddarparu darlun cadarn o fannau cychwyn unigol disgyblion. Mae'r pennaeth cynhwysiant yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i nodi a gweithredu ymyriadau priodol.

Mae tîm cynhwysiant yr ysgol yn cysylltu'n agos ag athrawon dosbarth i ddarparu cymorth effeithiol sydd wedi'i gydlynu'n dda ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae anogwyr dysgu yn gweithio'n agos gydag unigolion a grwpiau bach o ddisgyblion i gyflwyno ymyriadau ar gyfer llythrennedd a dyscalcwlia, adolygu cynnydd yn rheolaidd a chadw cofnodion cyfoes ar gyfer disgyblion unigol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae craffu'n rheolaidd ar waith yn helpu nodi diffygion o ran medrau neu fylchau mewn gwybodaeth na chawsant eu nodi efallai drwy'r broses asesu gychwynnol. Mae'r ymarferiadau hyn yn gwella trefniadau anffurfiol sefydledig i athrawon wneud atgyfeiriadau unrhyw bryd at y tîm cynhwysiant lle mae eu perfformiad yn peri pryder.

Mae staff ar draws yr ysgol yn olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion yn erbyn eu targedau bob hanner tymor. Mae'r wybodaeth o'r asesiadau hyn yn darparu trosolwg cynhwysfawr o gynnydd disgyblion unigol yn eu dysgu, yn ogystal ag mewn agweddau ar eu datblygiad personol. Mae'r pennaeth cynhwysiant yn adolygu'r wybodaeth hon mewn cyfarfodydd 'codi safonau' rheolaidd neu mewn cyfarfodydd o'r grŵp 'monitro lles a phresenoldeb' bob pythefnos i nodi lle gall fod angen cymorth ychwanegol.

Mae'r ysgol yn monitro perfformiad disgyblion yn erbyn y targedau yn eu CAUau bob tymor. Mae'r targedau hyn yn cysylltu'n agos â meysydd allweddol i'w datblygu mewn llythrennedd, rhifedd ac agweddau ehangach ar ddatblygiad personol disgyblion. Mae anogwyr dysgu yn diweddaru'r targedau hyn yn rheolaidd ar sail eu gwaith parhaus gyda disgyblion, a chyfraniadau gan y disgyblion, rhieni a gofalwyr. Mae'r dull hwn, sydd wedi'i gydlynu'n dda, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gryf o egwyddorion arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn helpu sicrhau bod targedau'n berthnasol ac yn nodi'n gywir beth sydd bwysicaf i'r disgybl ym mhob cyfnod o'i ddysgu. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 3, mae targedau'n canolbwyntio'n fanwl ar gyfnerthu medrau craidd neu fynd i'r afael â bylchau yng ngwybodaeth disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff targedau eu teilwra'n fanwl i gynorthwyo disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r cyfnod nesaf o'u bywyd a'u dysgu.

Mae'r ysgol yn cadw ffocws ychwanegol ar gynnydd y disgyblion hyn tuag at gyrchfannau cadarnhaol trwy fonitro'n fanwl gofrestr yr ysgol o ddisgyblion sydd mewn perygl o fod yn NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gael mewnbwn gwerthfawr gan asiantaethau allanol i ddarparu arweiniad gwell ar yrfaoedd i ddisgyblion yn unol â'u hangen personol.

**Deilliannau**

Mae bron yr holl ddisgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd cryf. Am y 3

blynedd diwethaf, mae 100% o ddisgyblion yn cyrraedd trothwy Lefel 1. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ag AAA yn gwneud cynnydd effeithiol ar sail lefel eu targedau/graddau. Mae bron yr holl ddisgyblion y nodwyd bod angen cymorth arnynt o ganlyniad i sgorau safonedig gwan mewn llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd cyflym.

Mae disgyblion yn yr ysgol yn siarad yn huawdl ac yn agored am yr anawsterau a wynebant yn eu dysgu a sut mae'r ysgol wedi'u helpu i oresgyn y rhain.

## Ymgysylltu ag eraill i gynorthwyo disgyblion ag AAA

### Ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd

34 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae prosesau datblygedig i ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd.  Mae'r rhain yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd i staff feithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr, ennyn ei hymddiriedaeth a'u galluogi i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer eu plant.  Yn benodol, mae ysgolion cynradd yn ymgysylltu'n weithgar â darpar rieni a gofalwyr cyn i'r disgyblion ymuno â'r ysgol.  Er enghraifft, maent yn casglu gwybodaeth o Dechrau'n Deg a lleoliadau meithrin nas cynhelir, ac yn gwneud ymweliadau â chartrefi i ddod i adnabod anghenion y plentyn.  Mae'r wybodaeth y maent yn ei chasglu yn helpu sicrhau bod disgyblion a theuluoedd yn derbyn cymorth da i ymgartrefu yn eu hysgol newydd.

35 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, ceir cyfleoedd rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ysgol i rieni a gofalwyr fynychu'r ysgol i gyfarfod â staff, er enghraifft mewn nosweithiau rhieni a boreau agored.  Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant drwy adroddiadau ysgrifenedig a galwadau ffôn gartref.  Cânt gyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at osod targedau a chynlluniau cymorth mewn adolygiadau cynnydd a chyfarfodydd adolygu blynyddol, neu i ofyn am gyfarfodydd wyneb yn wyneb i drafod cynnydd eu plentyn.  Mae staff yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn yn gynhyrchiol i drafod strategaethau gyda rhieni a gofalwyr ar sut i gefnogi anghenion eu plant gartref.

36 Mae'r ysgolion hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu'n anffurfiol â rhieni a gofalwyr.  Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn cynnal boreau coffi rheolaidd ar gyfer rhieni, gofalwyr a theuluoedd er mwyn dod i adnabod y staff a gweld y gwaith y mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol.  Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio gwefan eu hysgol a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn arbennig o dda i amlygu a dathlu gwaith disgyblion ag AAA.  Mae llawer o ysgolion cynradd yn arbennig yn ymgysylltu'n weithgar â rhieni a gofalwyr wrth gât yr ysgol i hwyluso cyfathrebu ar ddechrau a diwedd bob diwrnod.  Mae'r rhyngweithiadau hyn yn helpu'r ysgol a rhieni a gofalwyr i gyfnewid gwybodaeth bwysig am gynnydd a lles y plentyn o ddydd i ddydd.

37 Mae Ysgol Gynradd Gaer yn gweithio'n eithriadol o dda gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd i gynorthwyo disgyblion ag AAA pan fyddant yn ymuno â'r ysgol.

**Astudiaeth achos 4:  Ysgol Gynradd Gaer**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Gaer ar ochr orllewinol dinas Casnewydd.  Agorodd yn 2014, ar ôl uno'r ysgolion babanod a phlant iau.  Yn Ionawr 2019, roedd 486 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 63 o ddisgyblion rhan-amser yn y feithrinfa.  Ceir 17 o ddosbarthiadau, gan

gynnwys canolfan adnoddau awdurdod lleol yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag ystod o anawsterau lleferydd, ymddygiadol ac anawsterau dysgu cyffredinol.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf yw 17.9%. Mae hyn fymryn yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.4%. Mae AAA gan 22% o ddisgyblion, ac mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Mae staff yn dechrau’r broses o sefydlu perthnasoedd gyda rhieni a gofalwyr cyn i ddisgybl ag AAA gychwyn yn yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn cynnal ymweliadau cartref sy’n helpu sefydlu perthnasoedd ymddiriedus a chefnogol gyda theuluoedd yn gynnar. Mae’r ymweliadau cartref yn galluogi’r ysgol gael dealltwriaeth glir o anghenion pob disgybl, a mynd i’r afael â phryderon a all fod gan y teulu ynglŷn â throsglwyddo i’r ysgol gynradd. O ganlyniad i’r ymgysylltu cynnar hwn gyda phlant a theuluoedd, mae’r ysgol yn gallu teilwra ei darpariaeth a’i chymorth i fodloni anghenion ehangach y plentyn. Gallai hyn gynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer datblygu iaith neu anogaeth i rieni a gofalwyr i ymuno â rhaglen dysgu teuluol helaeth yr ysgol. Mae’r cyfleoedd hyn yn chwarae rhan bwysig mewn sicrhau bod rhieni disgyblion ag AAA yn teimlo’n rhan o gymuned yr ysgol.

Mae’r ysgol yn gweithio’n arbennig o agos gyda theuluoedd sydd â phlant yn y ganolfan adnoddau. Mae disgyblion yn mynd i mewn i’r cyfleuster hwn ar adegau gwahanol yn y flwyddyn academaidd. Mae llawer yn trosglwyddo iddi ar ddechrau cyfnod allweddol 2 o ysgolion gwahanol ar draws y ddinas. Yn aml, mae hyn yn amser heriol i ddisgyblion a theuluoedd. Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn gweithio mewn modd sensitif gyda rhieni a gofalwyr ar yr adeg anodd bosibl hon er mwyn sicrhau bod ganddynt ddirnadaeth dda o ethos yr ysgol a’r ffordd y gall eu plentyn ddod yn aelod gwerthfawr o gymuned yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd i rieni newydd ymweld â’r ysgol. Gallai hyn gynnwys ymweliadau ffurfiol i fynd o amgylch yr ysgol a chyfarfod ag uwch aelodau staff a’r athro dosbarth, neu amser i ymgysylltu â gweithgareddau hwyliog ochr yn ochr â’u plentyn. Nid oes un ymagwedd at bontio gan yr ysgol yn y ganolfan adnoddau, ond mae’n ymateb yn hyblyg i anghenion bob teulu er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo’n hyderus i ymgysylltu â’r cyfnod nesaf yn nysgu eu plentyn.

Pan fydd disgybl wedi dechrau mynychu’r ganolfan adnoddau, mae staff yn ffonio rhieni a gofalwyr yn ddyddiol i’w cadw mewn cysylltiad â phrofiadau ac ymgysylltiad eu plentyn yng nghyfnodau cynnar eu hamser yn yr ysgol. Mae’r broses hyblyg ac unigoledig hon yn enghraifft o ba mor effeithiol y mae’r ysgol yn rhoi lles pob disgybl ag AAA a’u teuluoedd wrth galon eu gwaith.

**Deilliannau**

Mae disgyblion yn teimlo'n hapus, eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Dangosant lefelau uchel eithriadol o les ag agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae bron yr holl ddisgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da iawn yn unol â'u galluoedd a'u hanghenion.

Mae'r rhaglen ymgysylltu â theuluoedd wedi cael effaith gadarnhaol ar helpu rhieni a gofalwyr disgyblion ag AAA deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn addysg eu plant yn ogystal â datblygu'u medrau a'u hyder i gynorthwyo'u plant gyda dysgu.

Mae disgyblion ag AAA yn gwerthfawrogi'r ffyrdd y mae'r ysgol yn cynnwys eu teuluoedd yn eu dysgu a'u profiad yn yr ysgol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n ymuno â'r ysgol i fynychu'r ganolfan adnoddau. Maent yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r ysgol yn eu helpu i ddatblygu'u hyder a'u hunanbarch.

38 Un nodwedd ragorol mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yw'r gwaith gyda rhieni a gofalwyr i'w helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i gefnogi dysgu'u plentyn mewn medrau fel rhifedd, darllen neu TGCh. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn darparu adnoddau defnyddiol i rieni i'w helpu i gynorthwyo'u plant gartref, er enghraifft arweiniad ar ddatblygu medrau echddygol a ffoneg, yn ogystal â gwybodaeth am lyfrau ac apiau defnyddiol. Maent yn gwahodd rhieni a gofalwyr i ddod i mewn i'r ysgol i roi cynnig ar weithgareddau gyda'u plant neu i arsylwi'u plant yn y dosbarth. Mae hyn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall ffyrdd iddynt allu helpu'u plant ddysgu gartref. Yn yr un modd, lle mae medrau llythrennedd gwael gan rieni a gofalwyr, mae llawer o ysgolion yn cyfarfod â nhw ar sail un i un i esbonio adroddiadau gyda'i gilydd a thrafod sut gallant eu helpu yn eu dysgu gartref.

39 Yn yr ysgolion hyn, mae'r ymgysylltiad buddiol hwn â theuluoedd yn cynnwys darparu digwyddiadau hyfforddi rheolaidd i rieni a gofalwyr ar y modd gorau i gefnogi maes anhawster penodol eu plentyn.

Mae **Ysgol Gymraeg Gwenffrwd** yn trefnu digwyddiadau hyfforddi rheolaidd i rieni a gofalwyr, yn cynnwys sesiynau ar anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), a gyflwynir gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth well o lawer iddynt o anawsterau eu plant, a'r strategaethau y gallant eu defnyddio i'w cefnogi. Mae sesiynau ar ddyslecsia yn helpu rhieni i ddeall sut gall eu plant ddefnyddio mapiau meddwl i drefnu'u syniadau a strwythuro'u gwaith. Hefyd, mae'r ysgol yn hwyluso sesiynau a gyflwynir gan staff o ysbytai o Betsi Cadwaladr ac Alder Hey i rieni disgyblion ag anghenion meddygol. Byddai llawer o'r rhieni sy'n mynychu'r sesiynau hyn yn amharod i ymgysylltu â'r hyfforddiant pe bai'n cael ei gynnal tu allan i'r ysgol. Mae'r berthynas agos a'r ymddiriedaeth rhwng staff yr ysgol a rhieni'n golygu bod yr hyder gan rieni i fynychu a chyfranogi.

40 Lle ceir perthnasoedd cryf gyda rhieni a theuluoedd, mae disgyblion yn elwa o gyd-ddealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn. Mae'r ymagwedd hon yn helpu lleihau gwahaniaethau barn rhwng y cartref a'r ysgol ac yn eu helpu i wneud cynnydd mwy effeithiol. Yn Ysgol Gymuned Rhosybol, mae gwybodaeth fanwl am amgylchiadau teuluol disgyblion yn helpu sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig i gefnogi'u lles a'u hymgysylltiad â dysgu.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Gymuned Rhosybol**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gymuned Rhosybol wedi'i lleoli ym mhentref Rhosybol, rhyw ddwy filltir o Amlwch ar Ynys Môn, ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Yn Ionawr 2019, roedd 68 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr.

Mae 10.4% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.4%. Mae AAA gan oddeutu 16% o ddisgyblion, ac mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Adolygodd Ysgol Gymuned Rhosybol ei hymagwedd at osod gwaith cartref, wrth i fwy a mwy o staff sylwi ar yr effaith negyddol yr oedd disgwyliadau traddodiadol o ran gwaith cartref yn ei chael ar fywyd teuluol, yn enwedig ar gyfer teuluoedd â phlant â lefelau angen uwch. Roedd disgyblion, yn enwedig y rhai ag AAA, yn dangos lefelau isel cynyddol o ymgysylltu mewn gwersi oherwydd eu pryderon ynghylch gwaith cartref. Roedd rhieni wedi mynd i deimlo'n ddig ynglŷn â'r pwysau a oedd yn cael ei roi arnynt i gynorthwyo â gwaith cartref eu plant. Yn benodol, fe wnaeth rhieni a oedd wedi gwahanu oddi wrth ei gilydd fynegi pryderon mai amser cyfyngedig oedd ganddynt gyda'u plant ac nad oeddent am dreulio'r amser hwnnw yn gwneud gwaith cartref.

Ar ôl ymgynghori â staff a disgyblion, penderfynodd yr ysgol ganolbwyntio ar 'ymglymiad teuluol' yn lle tasgau gwaith cartref traddodiadol. Ysgrifennodd y pennaeth at bob teulu yn egluro bod ymagwedd yr ysgol at waith cartref yn newid. Eglurodd y llythyr y byddai teuluoedd yn cael eu hannog i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol ac ymlacio amrywiol gyda'i gilydd, naill ai min nos neu dros y penwythnos. Anfonodd hyn neges wirioneddol bwysig i ddisgyblion, rheini a staff ynglŷn â phwysigrwydd gorffwys. Roedd hyn yn golygu hefyd, pe bai plentyn yn aros gydag aelod gwahanol o'r teulu dros benwythnos, yna byddai'r gweithgareddau'n cyfrannu tuag at y gwaith cartref, gan ddileu'r angen felly i rieni ddewis rhwng treulio amser ar dasgau gwaith cartref neu ymgysylltu â'i gilydd yn gymdeithasol. Creodd y disgyblion restr eang o weithgareddau i'w mwynhau fel teulu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- hel mwyar duon
- dringo coeden
- gwersylla dan do neu yn yr awyr agored

- gwneud pei mwd
- ysgrifennu rysáit a pharatoi pryd
- dysgu am wlad arall
- adeiladu cuddfan
- dysgu am yr ardal leol
- ymweld â thref newydd neu bentref
- cerdded yn y coed neu ar hyd y traeth

Mae ‘Llyfr Trysor’ gan bob disgybl, ac maent yn ei ddefnyddio i gofnodi’r gweithgaredd maent yn ymgymryd ag ef a myfyrio arno. Mae hon yn elfen lwyddiannus iawn o’r fenter, ac mae teuluoedd yn gweithio’n galed i gofnodi a chadw eu profiadau yn y llyfr hwn mewn unrhyw ffordd a ddymunant. Er enghraifft, gallai disgyblion ac aelodau eu teulu gynnwys ffotograffau y maent wedi’u cymryd neu ddyluniadau ar gyfer cerdyn pen-blwydd, rysáit, llun neu fap y maent wedi’i dynnu. Mae disgyblion yn dewis paentio’u profiadau neu gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig fel cofnodion mewn dyddiadur, cerddi neu erthyglau papur newydd. Mae disgyblion sy’n dewis casglu eitemau yn aml yn eu cynnwys fel rhan o’u gweithgaredd a ddogfennir.

P’un a yw’r plant yn adeiladu cuddfan yn eu gardd neu yn yr ystafell fyw, yn gwneud peis mwd neu grempog, yn dylunio gêm neu’n dysgu clymu lasys eu hesgidiau, mae’r rhyngweithio rhyngddyn nhw’u hunain ac aelodau’r teulu yn gadael iddynt weld faint mae’r bobl sy’n gofalu amdanynt yn buddsoddi yn eu haddysgu. Mae dogfennu’r gweithgareddau hyn ar unrhyw ffurf a ddewisant, fel bod eu ffrindiau yn gallu gweld beth maent wedi’i wneud, yn ffordd ystyrlon o ddatblygu’r medrau, yr hyder a’r cymhelliant ar gyfer astudiaeth annibynnol nes ymlaen mewn bywyd. Daw’r disgyblion â’r Llyfrau Trysor i’r ysgol bob pythefnos, nid i’w marcio, ond i’w rhannu, eu mwynhau a’u dathlu gyda ffrindiau a’r staff. Mae’r gymuned ysgol gyfan yn ymfalchïo yn y Llyfrau Trysorau y maent yn eu cynllunio a’u creu gyda llawer iawn o ystyriaeth.

**Deilliannau**

Ers cyflwyno gweithgareddau’r Llyfr Trysor ym Medi 2019, mae staff yn adrodd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion â lefelau uchel o anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol yn dangos cryn dipyn yn fwy o ymgysylltiad a diddordeb yn eu gwaith. Mae’r disgyblion hyn yn fwy hyderus o lawer ynglŷn â’u dysgu ac yn dangos agwedd a meddylfryd cadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion agored i niwed yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig sy’n rhagori ar eu targedau cytûn.

## Cydweithio rhwng ysgolion i gefnogi pontio

41 Mae bron yr holl ysgolion yr ymwelom â nhw yn datblygu partneriaethau cryf gydag ysgolion eraill a darparwyr addysg, yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae’r partneriaethau hyn yn sicrhau bod trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ag AAA o leoliadau meithrin

i'r ysgol gynradd, o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ac ysgol uwchradd i ddarparwyr ôl-16, yn gadarn. Mae'r cydweithio effeithiol iawn hwn yn helpu sicrhau cynnydd parhaus disgyblion pan fyddant yn ymuno â'u hysgol neu ddarparwr newydd.

42 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn gweithio'n agos gyda'u hysgolion cynradd partner i ddarparu trefniadau pontio gwell i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i symud i ysgol newydd. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn cynnwys rhaglen estynedig o weithgareddau pontio ar gyfer disgyblion ag AAA. Er enghraifft, mae staff yn Ysgol Gyfun Glantaf yn mynychu adolygiad blynyddol disgyblion a fydd yn mynychu ei chanolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu dwys o Flwyddyn 4 ymlaen. Mae hyn yn helpu meithrin perthnasoedd da gyda disgyblion a rhieni yn gynnar, a sicrhau bod gwybodaeth drylwyr gan yr ysgol o anghenion darpar ddisgyblon cyn iddynt ymuno â'r ysgol.

Yn **Ysgol Uwchradd Fitzalan**, mae trefniadau pontio yn nodwedd arbennig o lwyddiannus o'i gwaith i gefnogi disgyblion ag AAA. Mae perthnasoedd gweithio agos gyda'i hysgolion cynradd partner yn galluogi'r CydAAA i sefydlu darlun clir o anghenion a galluoedd disgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol. Mae'r ysgol uwchradd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddarparu gweithgareddau pontio hyblyg ac ymatebol sy'n helpu disgyblion ymgartrefu'n hwylus ym mywyd yn yr ysgol uwchradd. Mae ychydig o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn proses bontio uwch a gydlynir gan arweinydd clwstwr cyfnod allweddol 2 ar gyfer lles. Mae'r rhaglen hon, sydd wedi'i seilio yn Ysgol Uwchradd Fitzalan, yn galluogi disgyblion sy'n arbennig o agored i niwed ym Mlwyddyn 6 i ymgysylltu â chyfleusterau arbenigol a gwersi ymarferol, ac ymgyfarwyddo'n gyffredinol â'r ysgol uwchradd cyn iddynt fynd i mewn i Flwyddyn 7.

43 Mae Ysgol Gyfun Glantaf wedi datblygu trefniadau sydd wedi'u cydlynu'n dda ar draws ei holl ysgolion cynradd partner i hwyluso pontio disgyblion ag AAA.

**Astudiaeth achos 6: Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol ddynodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 11 ac 18 oed. Yn Ionawr 2019, roedd 1,209 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 9.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae AAA gan 19% o ddisgyblion, ac mae datganiad o AAA gan ychydig o dan 2% o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan adnoddau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu dwys.

**Gweithredu**

Mae trefniadau pontio cadarn gan yr ysgol gyda phob un o'i hysgolion cynradd partner. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau rheolaidd â'r ysgol uwchradd a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Un nodwedd bwysig o hyn

yw datblygu proffil disgyblion ar gyfer pob disgybl ag AAA a fydd mewn dosbarth prif ffrwd.  Mae staff yn yr ysgolion cynradd yn cynhyrchu proffiliau disgyblion manwl, gan ddefnyddio templed a luniwyd gan Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.  Er mwyn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn defnyddio'r cwestiynau canlynol:

**Pethau sy'n bwysig i mi**

- Beth sy'n dy wneud yn hapus?
- Beth wyt ti'n hoffi ei wneud?
- Sut wyt ti'n treulio dy amser y tu allan i'r ysgol?
- Pa bethau sy'n gwneud dy fywyd di'n dda?
- Pa bobl/anifeiliaid sy'n bwysig i ti?
- Pa bethau y mae angen i ti eu hosgoi?
- Pa bethau wyt ti'n falch ohonyn nhw?

**Pethau i'w hoffi a'u hedmygu amdanaf i**

**(Y peth gorau am fod yn fi)**

- Sut byddai dy ffrindiau yn dy ddisgrifio di pe bawn i'n gofyn iddyn nhw?

**Y ffordd orau i 'nghynorthwyo i**

- Pa offer sydd eu hangen arnat ti?
- Beth mae athrawon yn ei wneud sy'n dy helpu di?
- Beth yw'r ffordd orau i ti ddysgu?
- Beth mae angen i athrawon osgoi ei wneud?
- Beth sy'n dy helpu di i ddysgu?
- Beth sy'n gwneud gwers dda?
- Beth sy'n gwneud i ti deimlo'n esmwyth?
- Beth sy'n bwysig i athrawon wybod amdanat ti?

Mae'r proffiliau wedi'u cwblhau yn rhoi gwybodaeth hynod ddefnyddiol am anghenion y disgyblion a strategaethau penodol y gellir eu defnyddio i'w cynorthwyo.  Mae staff prif ffrwd, yn ogystal ag athrawon arbenigol a staff cymorth, yn gweld y rhain yn ddefnyddiol iawn ac yn cyfeirio atynt yn rheolaidd.

**Enghraifft o broffil wedi'i gwblhau:**

**Pethau sy'n bwysig i mi**

- Teulu
- Ffrindiau
- Pêl-droed, Dinas Caerdydd yn arbennig
- Karate – mae gen i wregys melyn
- Ci
- Rwy'n hoffi bod yn yr awyr agored. Rwy'n chwarae pêl-droed gyda fy mrawd, ac rwy'n hoffi nofio hefyd

**Pethau i'w hoffi a'u hedmygu amdanaf i**

**(Y peth gorau am fod yn fi)**

- Rwy'n hapus i wneud ffrindiau newydd
- Ystyriol
- Creadigol
- Yn ffrind da

**Y ffordd orau i 'nghynorthwyo i**

- Mae angen i fi wisgo sbectol i ddarllen o'r bwrdd gwyn
- Amser ychwanegol i gwblhau tasgau
- Bydd angen i chi ailadrodd cyfarwyddiadau a gwybodaeth i fi, gan fy mod i'n tueddu anghofio pethau
- Mae egluro a modelu tasgau yn fy helpu i ddeall beth i'w wneud
- Rwy'n gweld darllen yn anodd iawn, felly mae defnyddio darllenydd yn fy helpu i gwblhau mwy o waith
- Mae defnyddio mapiau meddwl yn fy helpu i gynllunio fy ngwaith
- Rhowch amser i mi brosesu gwybodaeth am dasg
- Os gwnewch fy annog i barhau â 'ngwaith, mae hyn yn fy helpu i gyflawni mwy
- Mae angen help arnaf i ddechrau tasg
- Mae sgaffaldiau geirfa allweddol a dechreuwyr brawddegau yn ddefnyddiol iawn i mi

**Deilliannau**

Mae'r proffiliau disgyblion yn rhan bwysig o drefniadau pontio cadarn yr ysgol gyda'i hysgolion partner, ac yn helpu sicrhau bod yr holl staff yn deall anghenion disgyblion cyn iddynt gyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu strategaethau priodol o'r eiliad y bydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol.

44 Mae bron yr holl ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw yn gweithio’n agos gyda’u hysgolion cynradd ac uwchradd partner i sicrhau bod gweithgareddau pontio yn bodloni anghenion plant unigol a’u teuluoedd.

Mae staff yn **Ysgol Gynradd Brynnau** yn cymryd cryn ofal i sicrhau eu bod yn mynd i’r afael ag unrhyw bryderon a gofidiau yn gyflym, gan gynnwys trefnu ymweliadau ychwanegol â’r ysgol uwchradd i ddisgyblion sy’n dioddef o ddiffyg hyder, a darparu storïau cymdeithasol i gynorthwyo dealltwriaeth disgyblion o bontio trwy ddelweddau gweledol o’u hysgol newydd.

Mae **Ysgol Gynradd Gaer** yn gweithio’n weithgar gydag ysgolion cynradd cyfagos a’r awdurdod lleol i ystyried p’un a yw hon yw’r ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer darpar ddisgyblion. Er enghraifft, os yw disgybl yn cael ei ystyried ar gyfer canolfan adnoddau’r ysgol, bydd aelod o staff o Ysgol Gynradd Gaer yn ymweld ag ysgol bresennol y disgybl i ganfod a yw darpariaeth y ganolfan adnoddau yn addas. Os y consensws yw mai aros yn ei ysgol bresennol fyddai o’r budd pennaf i’r disgybl, bydd staff o Ysgol Gynradd Gaer yn gweithio gyda’r ysgol gartref i helpu’r plentyn aros yno.

45 Ym mron pob un o’r ysgolion yr ymwelom â nhw sydd â dosbarthiadau arbenigol neu ganolfannau adnoddau, lle mae disgyblion yn symud rhwng dosbarthiadau prif ffrwd a’r ganolfan adnoddau, mae cyfathrebu rhwng y staff yn y ddau leoliad yn gryf ac yn cefnogi symudiadau disgyblion o fewn yr ysgol yn effeithiol iawn. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn y ganolfan adnoddau yn gweithio’n effeithiol gyda staff yng ngweddill yr ysgol i rannu’u gwybodaeth arbenigol a hyrwyddo strategaethau i’w cynorthwyo’n llwyddiannus o amgylch yr ysgol.

46 Yn Ysgol Gynradd Cogan, mae disgyblion sy’n mynychu canolfan adnoddau clywed yr ysgol wedi’u hintegreiddio’n llawn ym mywyd yr ysgol. Mae’r holl staff yn gweithio’n effeithiol iawn â’i gilydd i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAA, wedi’u cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

**Astudiaeth achos 7: Ysgol Gynradd Cogan**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Cogan yn ardal Cogan o Benarth yn awdurdod lleol Bro Morgannwg. Yn Ionawr 2019 roedd 205 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, wedi’u trefnu’n saith o ddosbarthiadau. Mae canolfan adnoddau clywed gan yr ysgol ar gyfer plant o’r awdurdod lleol. Ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 10% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru. Mae AAA gan 22% o ddisgyblion. Mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Mae ystod o AAA gan lawer o ddisgyblion sy’n mynychu’r ganolfan adnoddau clywed yn ychwanegol at y nam ar eu clyw. Mae’r ganolfan a’i staff yn darparu canolfan gefnogol i ddisgyblion sy’n eu paratoi at annibyniaeth a’u hintegreiddio’n raddol i ddosbarthiadau prif ffrwd. Cynhelir sesiynau dyddiol yn y ganolfan adnoddau clywed, ac yn ystod y rhain, caiff disgyblion y cymorth emosiynol a’r cymorth dysgu sydd eu hangen arnynt. Er enghraifft, mae disgyblion yn dechrau pob diwrnod yn y ganolfan cymorth clywed, ac yn cael cyfle i fewngofnodi a mynd i’r afael ac unrhyw anghenion emosiynol cyn iddynt drosglwyddo i ddosbarthiadau prif ffrwd. Yn ystod y diwrnod, mae disgyblion yn ymweld â’r ganolfan i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac i gael asesiad gofalus o’u hanghenion a’u cynnydd. Er enghraifft, mae staff yn rhag-diwtora disgyblion trwy ddarllen llyfrau dosbarth gyda’i gilydd fel bod disgyblion yn deall yr eirfa ac yn gyfarwydd ag unrhyw iaith arwyddion y bydd angen arnynt cyn y wers.

Mae’r athro arbenigol yn y ganolfan adnoddau clywed yn sicrhau bod yr holl ddosbarthiadau, gan gynnwys dosbarthiadau prif ffrwd, yn gyfeillgar i ddisgyblion byddar trwy gynnal hyfforddiant rheolaidd a chynnig cymorth a chyngor ar sail fwy anffurfiol. Er enghraifft, ym mhob dosbarth, mae’n gwneud yn siŵr bod athrawon:

- yn mynnu sylw’r disgyblion cyn iddynt ddechrau siarad
- yn wynebu’r disgybl wrth siarad, fel y gall ddibynnu ar ddarllen gwefusau ac ystumiau er mwyn deall beth sy’n cael ei ddweud
- yn annog disgyblion eraill i siarad un ar y tro
- yn sicrhau bod goleuadau da i oleuo wyneb y siaradwr
- yn defnyddio cyfarpar gweledol fel darluniau a modelau
- yn sicrhau bod cyn lleied o sŵn cefndir ag y bo modd
- wedi’u hyfforddi i ddefnyddio microffonau radio, os yw hyn yn briodol i’r disgybl y maent yn ei gynorthwyo.

Yn ogystal, mae elfennau ffisegol holl ardaloedd yr ysgol mor ‘gyfeillgar i ddisgyblion byddar’ ag y bo modd. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o’r ganolfan adnoddau clywed a’r ysgol brif ffrwd, ceir lloriau arbenigol, fel teils acwstig a mannau â charped. Mae hyn yn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol gorau posibl gan ddisgyblion â nam ar eu clyw i ddysgu ynddo, ble bynnag y maent yn yr ysgol.

Mae staff cymorth yn mynd gyda disgyblion i ddosbarthiadau prif ffrwd ac yn darparu lefelau uchel o gymorth effeithiol iawn pan fydd ei angen. Mae paratoi manwl ymlaen llaw yn galluogi staff addysgu i gynnwys disgyblion yn llawn yn eu gwersi prif ffrwd, a’u helpu i lwyddo. Mae pob athro dosbarth yn deall pwysigrwydd eu rôl yn addysgu disgyblion ag AAA ac maent yn mabwysiadu arferion priodol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai â nam ar eu clyw. Mae perthnasoedd rhwng athrawon a staff cymorth yn gadarn. Mae staff cymorth y ganolfan adnoddau clywed yn cynghori athrawon prif ffrwd yn rheolaidd ynglŷn ag

arfer orau wrth gynorthwyo disgyblion â nam ar eu clyw. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw a lefelau cynhwysiant yn dda iawn.

Mae proffil un dudalen gan bob disgybl, sy'n nodi cryfderau'r disgyblion, pwy neu beth sy'n bwysig iddynt, ac yn hanfodol, sut gall oedolion a chyfoedion eu helpu i ddysgu. Mae'r proffiliau hyn yn sicrhau bod gan bob oedolyn nodyn atgoffa gweledol ynglŷn â'r modd gorau i gynorthwyo disgyblion a sut i ddiwallu eu hanghenion dysgu ac emosiynol.

Mae ymrwymiad yr ysgol i gynnwys disgyblion â nam ar eu clyw yn llawn yn amlwg ym mywyd dyddiol yr ysgol. Cynhelir digwyddiadau ysgol gyfan, proffil uchel, fel yr wythnos flynyddol ymwybyddiaeth o'r byddar, ac yn ystod yr wythnos honno, mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan mewn her, fel arwyddo'u henw a'u cyfeiriad. Ceir 'arwydd yr wythnos' o hyd, ac mae'r holl ddisgyblion yn dysgu ac yn defnyddio'r arwydd gyda'u cyfoedion, ni waeth beth yw eu hanghenion. Mae'r math hwn o weithgaredd yn hyrwyddo ethos o ddealltwriaeth a pharch rhwng y naill a'r llall, lle mae pob disgybl yn bwysig a bodlonir anghenion pawb.

**Deilliannau**

Mae disgyblion â nam ar eu clyw yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae lleiafrif yn gwneud cynnydd eithriadol ac yn cyflawni deilliannau sy'n briodol i'w hoed erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae disgyblion â nam ar eu clyw yn siarad yn gadarnhaol am y medrau y maent yn eu dysgu, a'r cymorth a gânt gan staff y ganolfan adnoddau clywed a'r brif ffrwd a'u cyfoedion. Hefyd, mae disgyblion y brif ffrwd yn siarad yn gadarnhaol ynglŷn â'r effaith y mae'r ganolfan adnoddau clywed wedi'i chael ar eu profiad yn yr ysgol, a'u dysgu a'u lles. Er enghraifft, teimlant fod gallu arwyddo yn fedr defnyddiol y byddant yn ei ddefnyddio gydol eu bywydau.

47 Ceir trefniadau cefnogol mewn llawer o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw i helpu disgyblion symud ymlaen i gyrchfannau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae staff yn Dŵr y Felin yn ymweld yn rheolaidd â'r coleg addysg bellach lleol a mannau gweithio i gynorthwyo disgyblion i ymgyfarwyddo ag adeilad y coleg. Mae'r gwaith hwn yn ategu digwyddiadau pontio a drefnir gan y coleg ac yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus ar ôl eu harholiadau TGAU. Mae gan staff yn Ysgol Gyfun Tredegar gysylltiadau sefydledig a chynhyrchiol gyda darparwyr addysg bellach a hyfforddiant i sicrhau bod disgyblion ag AAA yn symud ymlaen at raglenni sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â disgyblion a rhieni cyn diwedd Blwyddyn 11 i baratoi disgyblion ar gyfer y cyrchfan y maent wedi'i ddewis. Mae hyn yn cynnwys trefnu ymweliadau, trefnu trafnidiaeth a galluogi disgyblion i ymarfer eu trefniadau teithio.

## Rhannu arfer dda

48 Mae bron yr holl ddisgyblion yr ymwelwyd â nhw yn elwa o berthnasoedd gweithio agos gyda CydAAA mewn ysgolion eraill, a gyfryngir yn aml drwy rwydweithiau

clwstwr lleol neu gynrychiolwyr o'r consortiwm. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r CydAAA yn dal swydd gyfrifol y tu allan i'r ysgol, er enghraifft fel arweinydd clwstwr neu mae ar secondiad rhan-amser i'r awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, mae'r CydAAA mewn sefyllfa arbennig o gryf i nodi arfer gadarn mewn ysgolion eraill a rhannu hyn gydag eraill. Yn yr un modd, mae'r gwaith hwn yn cynorthwyo'r ysgol i adolygu ei darpariaeth ei hun yn barhaus. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at werthuso ei gwaith a nodi meysydd i'w gwella neu gynllunio hyfforddiant perthnasol i staff.

49 Mae'r rhwydweithiau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gydweithwyr cynradd ac uwchradd weithio gyda'i gilydd i rannu ymagweddau sy'n ymestyn y tu hwnt i gynllunio ar gyfer pontio neu ofynion penodol carfan arbennig. Er enghraifft, mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio agweddau ar ddiwygio ADY mewn perthynas ag arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu ysgrifennu cynlluniau datblygu unigol, neu, yn syml, i rannu agweddau ar arfer dda.

Mae **Ysgol Rhosybol** yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd eraill yn ei chlwstwr. Mae cyfarfodydd bob tymor rhwng y CydAAA ym mhob un o'r ysgolion cynradd yn gynhyrchiol iawn ac yn cynnwys cyfleoedd buddiol ar gyfer deialog broffesiynol i drafod strategaethau a mentrau i fodloni anghenion y disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr ysgolion.

Yn dilyn y cyfarfod tymhorol yng ngwanwyn 2019, er enghraifft, aeth pob ysgol ati i greu llyfryn 'Paid â Phoeni' / 'Don't Worry', yn seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan staff yn Ysgol Rhosybol. Mae'r llyfryn hwn yn canolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder i'r disgyblion. Er enghraifft, ar un dudalen wedi'i neilltuo i hunllefau, mae disgyblion yn awgrymu strategaethau y gellir eu defnyddio i oresgyn eu gofidiau. Ar y dudalen hon, mae'r cyngor yn annog disgyblion i:

- rannu eu breuddwydion gyda rhywun
- awgrymu esboniadau
- darllen cyn iddynt ddiffodd y golau – er mwyn ymlacio
- meddwl am 'bethau neis' cyn iddynt ddiffodd y golau
- rhoi'r gorau i wylio'r teledu cyn diffodd y golau

Mae testunau eraill yn cynnwys:

- cweryla gyda ffrind
- mynd ar goll
- bod yn destun hwyl
- colli rhywbeth
- torri rhywbeth

Os nad oes pryder penodol yn y llyfryn, mae disgyblion yn ei ysgrifennu ar bapur ac yn ei roi yn y blwch becso. Mae grŵp o ddisgyblion yn dod at ei gilydd wedyn i ddatblygu strategaethau y gellir eu defnyddio i oresgyn y pryder a'i ychwanegu at y llyfryn.

Mae disgyblion yn fwy astud o lawer nag oeddent cyn i'r blwch becso gyrraedd. Mae disgyblion a staff yn cytuno bod llawer llai o ymddygiad sy'n mynnu sylw, ac o ganlyniad, treulir mwy o amser ar dasgau, yn canolbwyntio ar eu dysgu.

50 Mae llawer o ysgolion yn gweithio'n gynhyrchiol iawn gyda'r awdurdod lleol i rannu arfer dda gyda staff mewn ysgolion eraill, ac i ddysgu oddi wrthynt. Mewn ysgolion lle ceir canolfannau adnoddau, mae athrawon yn aml yn darparu cyngor a chymorth i ysgolion prif ffrwd eraill nad oes ganddynt ganolfannau adnoddau.

Un nodwedd arbennig o gryf o waith **Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre** mew partneriaeth ag ysgolion yw ei rhaglen allgymorth, ‘Camau Sylfaenol’ / ‘Primary Steps’. Mae staff o Rosymedre yn darparu cyngor a strategaethau ymarferol i staff mewn ysgolion eraill i gefnogi disgyblion heriol ar sail technegau profedig y mae wedi’u datblygu yn ei chanolfan adnoddau ei hun. Mae’r ysgol wedi darparu hyfforddiant buddiol ar gyfer staff cymorth o ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol ynglŷn ag addasu’r cwricwlwm i ddiwallu anghenion disgyblion unigol.

Mae **Ysgol Gynradd Maendy** yn ymgysylltu’n eang o fewn ei chymuned a’r awdurdod lleol i dderbyn a rhannu cymorth. Mae hyn yn cyfoethogi ei darpariaeth ei hun a darpariaeth ysgolion eraill. Er enghraifft, mae’r athro â gofal yn y ganolfan adnoddau yn darparu cyngor allgymorth i ysgolion lleol. Mae hyn yn cynnwys ymweld â disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol mewn ysgolion eraill i gynnal arsylwadau a darparu cyngor i athrawon a staff cymorth. Fel rhan o’i rôl, mae hefyd yn hwyluso cyfarfodydd rheolaidd rhwng pob Cyd AAA lleol. Mae’r cyfarfodydd hyn yn galluogi ysgolion i rannu cyngor amserol a gwerthfawr a meithrin ethos o gydweithio ar draws ysgolion.

51 Mae lleiafrif o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr gydag ysgolion arbennig lleol. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd bod hynny’n eu galluogi i gael darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag AAA, nad yw ar gael yn rhwydd mewn rhywle arall yn yr awdurdod lleol, er enghraifft darpariaeth hydrotherapi i ddisgyblion ag anghenion corfforol cymhleth. Mewn ychydig o ysgolion, mae staff yn datblygu cysylltiadau mwy eang gydag ysgolion arbennig cyfagos i rannu’u harfer dda a datblygu dysgu proffesiynol i gefnogi disgyblion ag AAA yn eu hysgolion eu hunain. Yng Nghaerffili, er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Cwm Ifor ac Ysgol Gymunedol St Cenydd wedi meithrin partneriaeth arloesol gydag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields sy’n cefnogi disgyblion, rhieni a staff addysgu yn effeithiol iawn.

**Astudiaeth achos 8: Ysgol Gynradd Cwm Ifor, Ysgol Gymunedol St Cenydd ac Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields**

**Gwybodaeth am yr ysgolion**

Mae Ysgol Gynradd Cwm Ifor ar ystâd Penyrheol yng Nghaerffili. Yn Ionawr 2019, roedd 268 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 37 o ddisgyblion meithrin. Mae 41.0% o’r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch o lawer na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.4%. Mae AAA gan 22% o ddisgyblion. Mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae Ysgol Gymunedol St Cenydd yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed, wedi’i lleoli ar ochr orllewinol tref Caerffili. Yn Ionawr 2019, roedd 1,022 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae oddeutu 24% o’r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n uwch na’r

cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae AAA gan 31.7% o ddisgyblion, ac mae datganiad o AAA gan 4.1% o ddisgyblion.

Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields yw'r unig ysgol arbennig sy'n gwasanaethu bwrdeistref sirol Caerffili. Yn Ionawr 2019, roedd 158 o ddisgyblion 3 i 19 oed ar y gofrestr. Mae oddeutu 40% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae datganiad o AAA gan bron yr holl ddisgyblion ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, anawsterau corfforol a meddygol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA).

**Gweithredu**

Ym Medi 2014, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac Ysgol Gynradd Cwm Ifor, datblygodd Trinity Fields ddosbarth lloeren ar gyfer disgyblion oedran cynradd o'r ysgol arbennig a fyddai'n elwa o leoliad mewn darpariaeth arbenigol mewn ysgol brif ffrwd. Ar hyn o bryd, mae saith disgybl a phedwar aelod o staff yn nosbarth lloeren Cwm Ifor. Mae disgyblion yn treulio pedwar diwrnod yr wythnos yng Nghwm Ifor. Bob dydd Iau, maent yn mynychu Trinity Fields lle maent yn cael defnyddio'i adnoddau arbenigol, fel pwll hydrotherapi, therapi adlam ac ystafelloedd synhwyraidd.

Yng Nghwm Ifor, mae disgyblion yn ymuno â gwasanaethau ysgol gyfan, cyfarfodydd gwobrau wythnosol ac yn mynychu gwersi prif ffrwd, pan fydd yn briodol. Maent yn defnyddio neuadd ginio'r ysgol yn yr un ffordd â'r disgyblion prif ffrwd, gan ddewis a chasglu eu bwyd yn annibynnol. Maent yn rhyngweithio â ffrindiau ar iard yr ysgol ac yn cyfranogi mewn teithiau ysgol.

Yn dilyn llwyddiant y dosbarth lloeren yng Nghwm Ifor, fe wnaeth Trinity Fields, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, ddatblygu dosbarth lloeren yn Ysgol Gymunedol St Cenydd yn 2017 ar gyfer disgyblion oed uwchradd. Yn wreiddiol, roedd y dosbarth yn Ysgol Trinity Fields, yna symudodd i St Cenydd pan oedd y disgyblion yn barod i symud. Ar hyn o bryd, mae wyth disgybl a phedwar aelod o staff yn y dosbarth lloeren.

Mae disgyblion yn treulio pedwar diwrnod yr wythnos yn St Cenydd. Ar un o'r diwrnodau hyn, maent yn defnyddio'r ystafell medrau byw, lle maent yn dysgu medrau pwysig y bydd eu hangen arnynt yn eu bywydau yn y dyfodol, fel coginio. Ar ddydd Gwener, maent yn mynychu Trinity Fields, lle maent yn cyfranogi mewn digwyddiadau ysgol gyfan, yn mynychu gwersi nofio a gwersi cerddoriaeth, ac yn defnyddio'r adnoddau dysgu awyr agored.

Staff Trinity Fields yw'r staff sy'n gweithio yn y ddau ddosbarth lloeren, a chânt eu dewis yn ofalus am eu harbenigedd mewn AAA, ond hefyd am eu gallu i weithio'n effeithiol mewn lleoliad prif ffrwd. Fe'u cyflogir gan yr ysgol arbennig, ond cânt eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar yr ysgol brif ffrwd, gan gynnwys cyfarfodydd ysgol gyfan.

Mae llawer o ffactorau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y dosbarthiadau lloeren.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- ethos a rennir rhwng yr holl ysgolion
- ymddiriedaeth gryf rhwng y penaethiaid a staff eraill yn Trinity Fields a'r ddwy ysgol brif ffrwd arall
- cysylltiad rheolaidd iawn rhwng yr ysgol arbennig a'r ysgolion prif ffrwd
- brwdfrydedd y penaethiaid, a gyfrannodd at sefydlu'r darpariaethau
- staff brwdfrydig, ymroddedig iawn
- ymrwymiad cryf gan gyrff llywodraethol y ddwy ysgol
- cymorth buddiol gan yr awdurdod lleol, sydd wedi rhoi'r rhyddid i'r ysgolion ddatblygu'r darpariaethau heb orfod ymgynghori â'r awdurdod lleol ym mhob cam
- cytundebau partneriaeth clir rhwng yr awdurdod lleol, yr ysgol arbennig a'r ysgolion prif ffrwd, sy'n pennu rolau a chyfrifoldebau bob partner yn glir
- cynllunio gofalus iawn cyn agor y dosbarthiadau lloeren
- penodi staff yn ofalus i weithio yn y dosbarthiadau lloeren
- disgwyliadau o ddisgyblion a rennir o fewn yr ysgol gynnal; er enghraifft, mae'r holl ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau lloeren yn gwisgo'r un wisg ysgol â disgyblion yn yr ysgol gynnal

**Deilliannau**

Mae datblygu dau ddosbarth lloeren wedi cael effaith sylweddol ar les a dysgu'r disgyblion.  Mae hyn yn cynnwys cynnydd nodedig mewn perthynas â'r canlynol:

- ymddygiad gwell
- mwynhad mewn dysgu
- mwy o ryngweithio cymdeithasol, yn enwedig amser cinio ac amser egwyl, mewn gwasanaethau a chyngherddau
- mwy o hyder ac annibyniaeth
- gwell medrau cyfathrebu
- gwydnwch personol a lles emosiynol
- cyfeillgarwch gyda disgyblion prif ffrwd

Yn ogystal, yn Ysgol St Cenydd, mae disgyblion yn dangos:

- presenoldeb gwell
- ymagweddau gwell at ofal personol

Mae'r lleoliad deuol ar draws yr ysgolion prif ffrwd a'r ysgol arbennig yn golygu bod disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd a gynigir gan leoliad prif ffrwd, ond maent yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau arbenigol a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt yn yr ysgol arbennig.

Mae disgyblion prif ffrwd yn y ddwy ysgol yn elwa hefyd o'u cysylltiad â'r dosbarthiadau lloeren.  Maent yn datblygu ymdeimlad cryf o empathi a

dealltwriaeth gref o amrywiaeth. Mae system gyfeillio yn galluogi disgyblion prif ffrwd dethol i fynd i'r dosbarth lloeren i ryngweithio â disgyblion yno. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ddisgyblion unigol sydd wedi datblygu hyder a dealltwriaeth drwy eu rôl fel cyfeillion.

Mae staff prif ffrwd yn elwa o bresenoldeb y dosbarthiadau lloeren a'r cysylltiadau cryf â'r ysgol arbennig. Yn benodol, maent yn dysgu oddi wrth arbenigedd staff sy'n gweithio yn y dosbarth lloeren, a gallant fynd atynt i gael cyngor ar sut i gynorthwyo disgyblion ag ystod o AAA. Yn yr un modd, mae staff sy'n gweithio yn y dosbarth lloeren yn cynyddu eu gwybodaeth am strategaethau prif ffrwd, a gallant atgynhyrchu rhai ohonynt yn lleoliad y dosbarth arbennig.

Mae datblygu'r dosbarthiadau wedi cael effaith gadarnhaol ar rieni a gofalwyr yn yr ysgolion cynnal, sy'n dangos dealltwriaeth gynyddol o gynhwysiant ac amrywiaeth o ganlyniad i hynny. Mewn ychydig o achosion, mae rhieni sydd wedi bod yn amharod i ystyried lleoliad arbenigol ar gyfer eu plant wedi cael eu calonogi gan lwyddiant y dosbarthiadau ac maent wedi derbyn mai lleoliad arbenigol fyddai'r opsiwn gorau ar gyfer eu plentyn.

### Gweithio amlasiantaeth

52 Yn ymron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gweithio amlasiantaeth llwyddiannus yn rhan hanfodol o gymorth yr ysgol o ddydd i ddydd ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n hynod gynhyrchiol gydag ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys ystod helaeth o asiantaethau allanol. Maent yn ymateb yn ystyriol i'r cyngor gan y gweithwyr proffesiynol hyn i lywio cynllunio darpariaeth ar gyfer disgyblion a gosod targedau yn CAUau disgyblion.

53 Mae ystod yr asiantaethau allanol a'r gwasanaethau arbenigol y mae ysgolion yn gweithio â nhw yn amrywio gryn dipyn rhwng ysgolion, gan ddibynnu ar ystod a chymhlethdod anghenion eu disgyblion. Yn nodweddiadol, maent yn cynnwys seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, cynrychiolwyr o fyrddau iechyd lleol, gwasanaethau meddygol a nyrsys arbenigol, arbenigwyr mewn namau ar y golwg a'r clyw, gwasanaethau cwnsela, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), gwasanaethau cynhwysiant yr awdurdod lleol a'r heddlu.

54 Mae ysgolion yn cydlynu'r gwasanaethau a ddarperir gan yr asiantaethau hyn yn effeithiol iawn i sicrhau bod gan eu staff y ddealltwriaeth, y medrau a'r strategaethau i gefnogi anghenion cymhleth disgyblion.

Mae **Ysgol Uwchradd Tywyn** wedi datblygu cysylltiadau effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol er mwyn cael ystod eang o ymyriadau i gefnogi cynnydd, lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion yn yr ysgol.  Yn rhan o hyn, mae'r ysgol wedi gorfod rhoi strwythurau a phrotocolau cadarn ar waith i gydlynu ei gwaith amlasiantaeth.  Un elfen allweddol o hyn yw'r cyfarfod 'Hwb' amlasiantaeth a gynhelir bob mis yn yr ysgol i drafod disgyblion ag AAA.  Mae'r CydAAA, y cydlynydd lles, nyrs yr ysgol, cwnselydd, nyrs awtistiaeth, Swyddog Lles y sir, cynrychiolydd o CAMHS, a'r swyddog TRAC (cynllun awdurdod lleol i gefnogi medrau disgyblion sy'n agored i niwed) yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Gyda'i gilydd, mae aelodau tîm yn trafod anghenion academaidd ac emosiynol disgyblion ag AAA, yn ogystal â'r ddarpariaeth ychwanegol sydd ar gael i'w cynorthwyo yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

55 Mewn ysgolion lle mae'r cydweithio hwn yn arbennig o gryf, mae llinellau cyfathrebu agored rhwng yr ysgolion ac asiantaethau allanol yn galluogi cyfathrebu anffurfiol parhaus ochr yn ochr â chyfarfodydd a gynlluniwyd.  Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gallu cysylltu'n rhwydd â staff arbenigol dros y ffôn neu drwy'r e-bost, ac mae hyn yn eu helpu i ymateb yn gyflym i faterion wrth iddynt godi, a rhoi ymyriadau ar waith yn brydlon.  Mae hyn yn galluogi disgyblion, y gallai eu hanghenion fynnu cymorth mwy arbenigol fel arall, lwyddo mewn darpariaeth brif ffrwd.

56 Mewn ychydig o ysgolion, mae staff arbenigol yn darparu clinigau cyngor anffurfiol neu sesiynau galw heibio ar ddiwrnodau y maent yn yr ysgol, a gall staff eu mynychu ar sail ad hoc.  Mae'r buddsoddiad hwn o ran amser ac ewyllys da yn helpu'n sylweddol i feithrin hyder a dealltwriaeth staff ar draws yr ysgol, ac yn eu galluogi i ddod yn fwy medrus wrth ddefnyddio'r strategaethau a argymhellwyd.  Mae hyn yn cynorthwyo staff i ddod yn fwy medrus wrth nodi materion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, ac yn arwain at lai o atgyfeiriadau at yr awdurdod lleol i gael y gwasanaethau hyn.

57 Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud defnydd gofalus o'r cydweithio agos gyda staff arbenigol i uwchsgiio a gwella dysgu proffesiynol eu staff eu hunain. Yn benodol, maent yn datblygu gallu'r tîm cymorth dysgu i weinyddu rhaglenni a gynllunir gan staff arbenigol yn fedrus.

Yn **Ysgol Gynradd Blaen y Cwm**, mae arweinwyr wedi ymgysylltu'n ddyfeisgar ag asiantaethau allanol i ddatblygu gallu eu staff eu hunain i nodi ac asesu anghenion disgyblion.  Fel rhan o hyn, mae'r CydAAA a'r tîm arwain wedi datblygu cynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr ar gyfer eu staff, a gefnogir gan asiantaethau allanol.  O ganlyniad, gallant ddefnyddio ystod eang o strategaethau ac ymyriadau cyn bod angen ymgysylltu â'r asiantaethau hyn.  Mae hyn yn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda, ac yn wybodus ynglŷn ag anghenion a gofynion cymorth disgyblion.

58 Mae llawer o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr gyda sefydliadau trydydd sector sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau i ddisgyblion ag AAA, gan gynnwys grwpiau cymorth rhieni, adnoddau a chyfleusterau arbenigol. Mae'r ysgolion hyn yn darparu help a chyngor i rieni i gael cymorth gan y grwpiau hyn, yn cynnwys cymorth i lenwi ffurflenni cais neu drefnu'r teithio i fynychu diwrnodau agored. Lle mae gan rieni anawsterau dysgu eu hunain, mae'r cymorth hwn yn hollbwysig o ran sicrhau y gall eu plant fanteisio ar y gwasanaethau a ddarparant. Mae'r swyddogaeth 'gyfeirio' hon yn galluogi rhieni a gofalwyr i gael cyfleoedd buddiol i'w plant i gael mynediad i ddysgu yn yr awyr agored, cyfleusterau ymarfer corff a chlybiau ieuenctid ar ôl ysgol, yn ystod y gwyliau ac ar benwythnosau.

Mae **Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf** wedi datblygu cysylltiadau buddiol gyda sefydliad menter gymdeithasol a busnesau lleol i alluogi disgyblion o'i chanolfan adnoddau i gymryd rhan mewn profiad gwaith allanol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion cymhleth, gan gynnwys Syndrom Down ac ASA. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn gydag ystod o sefydliadau lleol, yn cynnwys archfarchnad leol, cartref gofal yr henoed, siop esgidiau a salon trin gwallt.

Mae menter gymdeithasol leol yn galluogi disgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth i gymryd rhan mewn lleoliadau rheolaidd mewn planhigfa leol a gweithdy coed. Ymgorfforir y profiad gwaith hwn yn eu hamserlenni unigol, am un diwrnod yr wythnos gydol y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion. Drwy'r lleoliadau hyn, mae disgyblion yn datblygu medrau sy'n bwysig yn y byd gwaith, fel medrau cymdeithasol a medrau cyfathrebu, gwaith tîm, gwisg briodol a phwysigrwydd cyrraedd y gwaith yn brydlon.

Hefyd, mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth fuddiol iawn gyda nifer o ganghennau archfarchnad, lle mae disgyblion yn dysgu llenwi silffoedd, trefnu eitemau yn ôl eu dyddiad, gwisgo iwnifform a gweini cwsmeriaid. Mae disgyblion sy'n gwneud profiad gwaith yn y ceginau mewn cartref yr henoed yn dysgu pwysigrwydd hylendid, defnyddio cyllyll a bod yn foesgar i gleientiaid.

59 Un elfen allweddol o gael cymorth gwasanaethau arbenigol yn llwyddiannus yw medr staff yn yr ysgol i gwblhau dogfennau cyfeirio yn brydlon ac effeithiol. Lle mae ysgolion yn fwyaf llwyddiannus yn sicrhau bod y cymorth hwn ar waith, maent yn eiriol yn gryf dros eu disgyblion a'u teuluoedd, ac yn cynnig her gadarn pan na fydd y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mynegodd staff bryderon ynglŷn â'r cymorth gan asiantaethau allanol, ac yn arbennig, argaeledd mewnbwn arbenigol i gefnogi iechyd meddwl disgyblion, a chysondeb presenoldeb mewn cyfarfodydd amlasiantaeth a gydlynir gan yr ysgol.

## Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer AAA

### Arwain ymagwedd ysgol gyfan at y ddarpariaeth ar gyfer AAA

60 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelom â nhw, mae uwch arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth ac ethos cynhwysol iawn sy'n pennu dyheadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu galluoedd a'u hanghenion. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio'n gadarn ar ddarparu cyfle cyfartal i bob disgybl, ac mae'n treiddio drwy bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cyfleu'r weledigaeth hon yn gryf ac yn sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau i ddisgyblion ag AAA. O ganlyniad, mae'r arweinwyr hyn yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo datblygu amgylcheddau gofalgar a chefnogol, lle caiff yr holl ddisgyblion eu hannog i dyfu fel unigolion a chyflawni'n dda o gymharu â'u mannau cychwyn.

61 Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon, ac yn chwarae rhan weithgar mewn monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Maent yn ymweld yn rheolaidd ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol sy'n dathlu cyflawniadau disgyblion ag AAA, neu hyfforddiant ysgol gyfan ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth, er enghraifft. Derbyniant wybodaeth ddiweddar am gynnydd disgyblion ag AAA drwy adroddiadau bob tymor i'r corff llywodraethol.

62 Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod lles yr holl ddisgyblion yn flaenoriaeth uchel. Mae'r holl staff yn yr ysgol yn deall, oni bai eu bod yn bodloni anghenion emosiynol a chorfforol eu disgyblion, na fyddant yn gallu mynd i'r afael â'u hanghenion dysgu penodol. Y ddealltwriaeth hon yw man cychwyn cynllunio strategol yr ysgol ac mae wedi gwreiddio'n ddwfn yn niwylliant yr ysgol.

Mae gan ddisgyblion yn **Ysgol Gynradd Maendy** ystod eang o AAA, yn amrywio o anawsterau dysgu penodol i anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae uwch arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth gynhwysol gryf sy'n canolbwyntio'n glir ar adeiladu gwydnwch emosiynol disgyblion, a rhoi iddynt y medrau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd yn eu dysgu. I gyflawni hyn, maent yn sicrhau bod staff yn gweithio gyda'i gilydd gyda diben clir a rennir. Yn gyson â'u harwyddair, sef 'Partneriaeth, Annog ac Ysbrydoli', mae'r holl staff yn datblygu partneriaethau gwerthfawr gyda rhieni, asiantaethau, ysgolion lleol a'r awdurdod lleol i gyfoethogi eu darpariaeth eu hunain, ac ysbrydoli a dylanwadu ar ddarpariaeth lleoliadau eraill.

Yn **Ysgol Gymraeg Gwenffrwd**, mae arweinwyr yn cydnabod bod teithiau preswyl ysgolion yn gallu achosi pryder arbennig. Mae hyn yn cynnwys disgyblion â phroblemau gwlychu'r gwely a merched sydd wedi dechrau'u misglwyf. Mae'r ysgol yn rhoi strategaethau effeithiol ar waith i dawelu meddwl disgyblion a'u rhieni. Rhyw fis cyn taith mae'r pennaeth ac arweinydd y daith yn cyfarfod â rhieni a disgyblion i drafod y materion sensitif hyn. Maent yn creu proffil un dudalen yn arbennig ar gyfer y daith, yn nodi'r agweddau y bydd ar ddisgyblion angen helpu gyda nhw. Wedyn gall disgyblion fwynhau'r teithiau heb bryderu am sut byddant yn ymdopi.

63 Mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion ag AAA, yn cynnwys y rheini yn y canolfannau adnoddau, yn cael mynediad i’r holl weithgareddau, ochr yn ochr â’u cyfoedion. Mae’r disgyblion hyn yn ymgymryd â swyddi cyfrifol o fewn yr ysgol, ac yn ystod gwersi. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu’u hannibyniaeth a’u hunanbarch. Mae cymuned yr ysgol yn dathlu cyflawniadau’r holl ddisgyblion yn gyfartal, er enghraifft mewn gwasanaethau, cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon ac eisteddfodau ysgol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gryf o’r hyn mae’n ei olygu i gael eu cynnwys a bod yn gynhwysol. Maent yn gyflym i sylwi pan fydd un o’u cyfoedion yn cael problem ac maent yn awyddus i helpu. Mae’r ymagwedd gynhwysol hon yn helpu disgyblion ag AAA i ddatblygu hyder wrth drafod eu hanawsterau a’r cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo, tra bod eu cyfoedion yn datblygu empathi a dealltwriaeth o ran disgyblion eraill.

Yn **Ysgol Gynradd Tywyn**, mae’r holl ddisgyblion ag AAA yn cael mynediad i’r holl weithgareddau ochr yn ochr â’u cyfoedion, gan gynnwys ymgymryd â swyddi cyfrifol o fewn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn aelod o’r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco. Maent yn gweithio fel arweinwyr digidol ac aelodau o’r Criw Cymraeg. Yn ystod yr eisteddfod ac ar ddiwrnodau chwaraeon, mae capteiniaid tai a chapteiniaid chwaraeon yn frwd iawn wrth gymell eu timau. Mae un disgybl o un o’r dosbarthiadau adnoddau dysgu wedi ymgymryd â rôl ‘prif arddiwr’, sy’n cynnwys dyfrhau’r planhigion, troi’r pridd, chwynnu a phlannu. Mae disgyblion yn frwdfrydig wrth siarad am eu rolau ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.


Mae disgyblion ag anawsterau dysgu sylweddol yn ymgymryd â chyfrifoldeb trwy fynd â chofrestr eu dosbarth o’r ystafell ddosbarth i swyddfa’r ysgol, yng nghwmni cyfaill. Maent yn gwneud hyn yn hyderus a heb gymorth oedolyn. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu’u hannibyniaeth a’u hymdeimlad o les.

Mae disgyblion ag AAA o’r dosbarthiadau adnoddau a dosbarthiadau prif ffrwd yn cymryd rhan yn frwdfrydig a hyderus mewn gwasanaethau. Yn ystod gwasanaethau, mae staff a disgyblion yn defnyddio arwyddo sylfaenol pan fyddant yn canu cân. Mae aelod o staff yn cynnal dosbarthiadau ar gyfer staff a disgyblion sydd eisiau datblygu’u harwyddo ymhellach. Mae hyn wedi arwain at sefyllfaoedd lle mae disgyblion wedi defnyddio arwyddo i gyfleu cyfarwyddiadau sylfaenol i’w cyfoedion di-eiriau.

Mae’r ysgol yn cynnal gwasanaeth cyflawniadau ar ddiwedd bob wythnos, ac mae disgyblion yn dewis un o’u cyfoedion ar gyfer gwobr. Mae hyn yn cynnwys disgyblion di-eiriau sy’n cyhoeddi’r disgybl o’u dewis gan ddefnyddio’r dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Caiff yr ymagwedd ysgol gyfan hon effaith gadarnhaol ar gyflawniad academaidd disgyblion ac mae’n sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu’n hapus yn yr ysgol ac yn teimlo’n fwy hyderus ynglŷn â’u dysgu.

64 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau cadarn i gyfleu anghenion disgyblion i'r holl staff. Maent yn sicrhau bod yr holl staff yn wybodus iawn ynglŷn ag anghenion disygblion drwy sesiynau codi ymwybyddiaeth rheolaidd ar ddechrau bob tymor neu flwyddyn academaidd, defnyddio systemau gwybodaeth ar-lein a thrwy ddogfennaeth o ansawdd uchel, fel proffiliau un dudalen a chynlluniau cymorth. O ganlyniad, mae staff yn yr ysgolion hyn yn adnabod disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau difyr sy'n cefnogi datblygiad disgyblion ag AAA yn dda.

Yn **Ysgol Gynradd Bontnewydd**, mae staff yn defnyddio map darpariaeth disgyblion unigol a manwl i gofnodi data asesiadau disgyblion a mewnbwn gan asiantaethau allanol. Mae hyn yn galluogi staff i weld ar amrantiad y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ddisgybl unigol, fel y dangosir yn yr enghraifft ganlynol:



Yn **Ysgol Uwchradd Tywyn,** mae arweinwyr yn cyfleu gwybodaeth am ddisgyblion, strategaethau ac ymyriadau yn effeithiol iawn i'r holl staff. Mae trafodaeth am ddisgyblion penodol ag AAA ar agenda bore'r staff bob wythnos, a chynhelir cyfarfod staff bob hanner tymor i gyflwyno gwybodaeth a thrafod strategaethau ar gyfer disgyblion AAA. Hefyd, mae arweinwyr yn trafod darpariaeth ar gyfer anghenion arbennig disgyblion yng nghyfarfod y tîm arwain bob bore Gwener ac, o ganlyniad, maent yn ymwybodol o anghenion disgyblion ac yn gallu delio â nhw'n effeithiol.

65 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i rannu gwybodaeth am ymgysylltiad disgyblion mewn dysgu a lles trwy gyfarfodydd tîm a phrosesau atgyfeirio. O ganlyniad, mae'r holl staff yn deall bod ganddynt gyfrifoldeb i fodloni anghenion disgyblion, ac mae llinellau cyfathrebu ar draws yr ysgol yn glir. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn ystyriol i addasu'r cymorth ar gyfer disgyblion neu i addasu'r cwricwlwm i fodloni anghenion emosiynol ac ymddygiadol newidiol disgyblion.

Yn **Ysgol Uwchradd Fitzalan**, mae'r Tîm Mynediad i'r Cwricwlwm yn gweithio ar draws yr ysgol i sicrhau bod disgyblion ag AAA yn derbyn y ddarpariaeth cwricwlwm, y cymorth a'r ymyrraeth fwyaf priodol i'w helpu i gyflawni'n dda. Mae'r tîm yn cynnwys arweinwyr canol â chyfrifoldeb dros Saesneg fel iaith ychwanegol, anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, anogaeth, lles a'r uned cymorth dysgu, a'r CydAAA. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu ac adolygu'r ddarpariaeth i'r disgyblion hyn o ddydd i ddydd ac i sicrhau bod rhaglenni ac ymyriadau unigol targedig ar waith i'w cynorthwyo.

66 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r CydAAA, athrawon a staff cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gefnogi disgyblion a hyrwyddo'u cynnydd yn seiliedig ar rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae'r CydAA yn chwarae rhan amlwg yn yr ysgol, ac yn aml mae'n aelod o'r uwch dîm rheoli. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl arweinwyr yn cynnal ffocws cryf ar les a chyflawniad disgyblion ag AAA.

67 Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae'r CydAAA yn cysylltu'n agos â staff ar draws yr ysgol, gan gynnwys penaethiaid blwyddyn, staff bugeiliol a staff cyswllt AAA o fewn adrannau i sicrhau bod anghenion disgyblion wedi'u deall, ac yr eir i'r afael â nhw. Mae dosbarthu rolau yn effeithiol fel hyn, a chyfathrebu agos, yn cael eu hategu gan systemau cadarn i gofnodi a rhannu gwybodaeth am ddisgyblion unigol.

68 Ar ôl creu'r ysgol newydd, mae arweinwyr a rheolwyr yn Ysgol Bae Baglan wedi gweithio'n llwyddiannus i roi strwythurau cadarn ar waith i hyrwyddo cyflawniad disgyblion ag AAA. O ganlyniad, maent wedi sicrhau safonau lles uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, ni waeth beth yw eu gallu neu lefel yr angen.

## Astudiaeth achos 9: Ysgol Bae Baglan

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Bae Baglan yn ysgol pob oed cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 3 i 16 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Yn Ionawr 2019, roedd 1,513 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 1,214 o ddisgyblion oed uwchradd a 299 o ddisgyblion oed ysgol gynradd. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan adnoddau ar gyfer 120 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ag AAA.

Mae dros 30% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 18.4% ar gyfer ysgolion cynradd. Oddeutu 27% yw'r ganran o ddisgyblion ag AAA, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.6% ar gyfer ysgolion uwchradd a 20.7% ar gyfer ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, mae datganiadau o AAA gan ryw 10.2% o ddisgyblion, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2% ar gyfer ysgolion uwchradd ac 1.6% ar gyfer ysgolion cynradd.

**Gweithredu**

Ers agor yr ysgol newydd, mae uwch arweinwyr wedi pennu gweledigaeth gynhwysol gryf ar gyfer yr ysgol. O ystyried cyfran uchel y disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac ystod eang AAA disgyblion, mae uwch arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i sefydlu dulliau cadarn o hyrwyddo cynhwysiant a lles yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAA.

Mae rolau staff sy'n cynorthwyo disgyblion ag AAA wedi'u diffinio'n glir a'u dosbarthu'n dda. Er enghraifft, mae'r pennaeth cynorthwyol â chyfrifoldeb dros ddisgyblion ag AAA yn aelod o uwch dîm arwain yr ysgol, ac mae'n sicrhau bod anghenion y disgyblion hyn yn ganolog i gynllunio strategol yr ysgol. Mae'r CydAAA yn gyfrifol am ddisgyblion ar y gofrestr AAA ar lefel gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy, yn ogystal â chynhwysiant disgyblion a chymorth i ddisgyblion. Mae cyfrifoldeb gan bennaeth y ganolfan adnoddau dros ddisgyblion â datganiadau a'r rhai ag anghenion mwy cymhleth. Mae disgyblion ag anghenion cymhleth yn elwa hefyd o gymorth staff arbenigol mewn meysydd fel lleferydd ac iaith neu ASA.

Mae'r tîm hwn yn gweithio'n agos â thîm bugeiliol yr ysgol i sicrhau bod cymorth i ddisgyblion yn cael ei gydlynu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn ogystal, mae gweithiwr bugeiliol arweiniol gan bob disgybl â datganiad i'w gefnogi. Mae'r staff hyn yn gweithio fel pwynt cyswllt ar gyfer y disgybl yn ystod y diwrnod ysgol ac yn helpu gosod y targedau ar gynlluniau disgyblion. Maent yn gweithio gyda disgyblion i gwblhau'u proffiliau un dudalen, yn ogystal â fersiynau manylach ar gyfer staff addysgu sy'n cynnwys strategaethau i'w cynorthwyo mewn gwersi.

Mae'r systemau cryf hyn o gymorth bugeiliol yn sicrhau bod lefel uchel o gydweithio a chyfathrebu rhwng gwaith y tîm AAA ac athrawon ar draws yr ysgol.  Mae'r CydAAA yn cyfarfod yn rheolaidd â'r cyfarwyddwr dysgu ar gyfer pob cyfnod o'r ysgol i drafod cynnydd disgyblion ar y gofrestr ac i ystyried pa ddisgyblion y gall fod angen eu hatgyfeirio at banel disgyblion yr ysgol.  Mae'r grŵp hwn – sy'n cynnwys staff allweddol yn yr ysgol yn ogystal â chynrychiolwyr o asiantaethau allanol fel CAMHS, seicolegydd addysg a'r swyddog lles addysg – yn cydlynu ymyriadau arbenigol i gefnogi gwaith yr ysgol.  Mae'r gweithio amlasiantaeth effeithiol iawn hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu ymateb yn brydlon i anghenion disgyblion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol iawn o system nodfwrdd a rheoli dogfennau ar-lein i hyrwyddo gweithio mewn tîm ar draws yr ysgol.  Mae'r offeryn hwn yn darparu mynediad i ystod gynhwysfawr o wybodaeth yn ymwneud â disgyblion unigol, yn cynnwys dyddiaduron bugeiliol disgyblion, CAUau, proffiliau un dudalen, datganiadau, a chynlluniau gofal iechyd.  Mae'r defnydd cyson a systematig o'r feddalwedd hon yn sicrhau bod gwybodaeth ddiweddar gan yr holl staff am ddisgyblion unigol.  O ganlyniad, mae gan yr holl staff sy'n gweithio gyda disgyblion ag AAA wybodaeth fanwl a thrylwyr yn ymwneud ag anghenion a chynnydd bob plentyn.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol iawn i hyrwyddo gallu a hyder staff addysgu i gynorthwyo disgyblion ag AAA.  Yn ogystal â gwybodaeth am ddisgyblion unigol, mae'r safle yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ystod eang o gyflyrau ac anawsterau fel ADHD, dyslecsia, ASA, nam ar y golwg, nam ar y clyw, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.  Mae'r adnodd hwn yn galluogi staff addysgu i adnabod arwyddion a symptomau'r cyflyrau hyn, deall y strategaethau sydd eu hangen i gynorthwyo disgyblion a gwybod pa staff yn yr ysgol sy'n meddu ar arbenigedd penodol yn y meysydd hyn.

**Deilliannau**

Mae ansawdd gofal, cymorth ac arweiniad yn nodwedd gref yn yr ysgol.  Mae ymyriadau wedi'u teilwra yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol yn llwyddiannus a gyda sensitifrwydd mawr.  Mae hyn yn eu helpu i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu.  Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd eithriadol.

69 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff cymorth yn chwarae rhan hanfodol i gefnogi cynnydd a lles disgyblion ag AAA.  Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn cydweddu cyfrifoldebau staff cymorth unigol yn ofalus â'u medrau a'u profiad penodol.  Mae hyn yn eu galluogi i arwain ystod eang o ymyriadau yn effeithiol iawn.  Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni wedi'u cynllunio i wella medrau disgyblion mewn agweddau ar lythrennedd a rhifedd, yn ogystal â rhaglenni i fynd i'r afael ag

anghenion cyfathrebu, anghenion emosiynol ac ymddygiadol, ac anghenion meddygol a chorfforol cymhleth disgyblion.  Mae'r arweinyddiaeth a'r defnydd a wneir o staff cymorth yn elfen hollbwysig yn llwyddiant yr ysgolion hyn.

### Dysgu proffesiynol a meithrin gallu

70 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelom â nhw, mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant arbenigol wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer staff i gynorthwyo disgyblion ag AAA.  Yn yr ysgolion hyn, mae'r CydAAA yn gweithio'n agos gydag uwch arweinwyr eraill i ddatblygu medrau staff, yn seiliedig ar ddealltwriaeth drwyadl o anghenion disgyblion unigol.  Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cysylltu'n dda â phrosesau rheoli perfformiad ac maent yn galluogi'r holl staff i ddatblygu'u dealltwriaeth o AAA yn gyffredinol, yn ogystal â'r arbenigedd penodol i gynorthwyo disgyblion unigol.

71 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff.  Maent yn cynnwys diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar gyfer yr ysgol gyfan, hyfforddiant pwrpasol yn seiliedig ar anghenion disgyblion unigol, a chyfarfodydd staff a thîm sy'n cynnwys cyfleoedd rheolaidd wedi'u nodi ar galendr i sicrhau bod dealltwriaeth glir gan staff o anghenion disgyblion.  Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn hwyluso cyfleoedd gwerthfawr i staff arsylwi neu weithio ochr yn ochr â'i gilydd i rannu dysgu ar draws timau staff ehangach.  Er enghraifft, yn y mwyafrif o ysgolion â chanolfannau adnoddau yr ymwelwyd â nhw, mae trefniadau staffio hyblyg yn golygu y caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i weithio ar draws dosbarthiadau prif ffrwd a'r ganolfan adnoddau.  Mae hyn yn arbennig o fuddiol o ran datblygu arbenigedd staff sy'n gweithio mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

Mae **Ysgol Gyfun Dŵr y Felin** yn darparu dysgu proffesiynol effeithiol iawn ar gyfer athrawon a staff cymorth.  Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall anghenion yr holl unigolion ac yn cynllunio'u gwersi yn dda i gynorthwyo disgyblion ag AAA.  Un nodwedd allweddol o waith yr ysgol yn y maes hwn yw rôl yr 'athrawon cyswllt' AAA ym mhob adran.  Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod cyfathrebu agos rhwng y CydAAA a'r adrannau pwnc.  Maent yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r CydAAA i drafod cynnydd disgyblion ag anghenion dynodedig a'r strategaethau i'w cynorthwyo, a chânt amser ym mhob cyfarfod adrannol i rannu'r wybodaeth hon gyda'u hadrannau.  Mae'r fenter hon wedi helpu'r holl athrawon i ddatblygu'u dealltwriaeth o sut i hyrwyddo dysgu disgyblion ag AAA.

72 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i gael mynediad at ddysgu a hyfforddi proffesiynol i gefnogi anghenion eu disgyblion.  Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i rannu dysgu ac arfer dda sy'n gwella darpariaeth ac yn codi safonau lles.  Mae asiantaethau allanol yn darparu hyfforddiant arbenigol gwerthfawr i gefnogi anghenion penodol disgyblion unigol.  Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Brynnau, mae'r holl staff yn elwa o hyfforddiant a ddarperir gan y nyrs arbenigol ar fwydo PEG a gofal stoma, tra bod adran gynhwysiant yr awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i staff cymorth ar ddeall awtistiaeth.

73 Mewn llawer o ysgolion, oherwydd y cydweithio agos rhwng staff arbenigol allanol a staff cymorth, mae staff cymorth dysgu yn chwarae rhan allweddol i sicrhau bod yr holl staff ar draws yr ysgol yn deall y strategaethau sydd eu hangen i gynorthwyo disgyblion. Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre, mae hyn yn ffurfio rhan o raglen dysgu proffesiynol wedi'i chynllunio'n dda ar draws yr ysgol i ddatblygu'r holl staff fel ymarferwyr hyderus a gwybodus.

**Astudiaeth achos 10: Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre ar gyrion datblygiad tai mawr i'r de o Wrecsam, rhwng Rhiwabon a Llangollen. Mae'r ardal yn hen ardal Cymunedau yn Gyntaf ac mae'n wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

Yn Ionawr 2019, roedd 237 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 21 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae'r ysgol yn cynnal adnodd awdurdod lleol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ag anawsterau dysgu cymedrol, ac adnodd anogaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae 41.4% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 18.4%. Mae oddeutu 43% o ddisgyblion ar y gofrestr AAA, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 21%. Mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Er mwyn bodloni anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu, mae'r ysgol wedi buddsoddi dros gyfnod hir mewn rhaglenni sy'n cefnogi lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn hwyluso ystod gynhwysfawr o gyfleoedd i staff wella eu medrau, er enghraifft, trwy fynychu hyfforddiant allanol, gweithio gyda staff addysgu o gyfnodau gwahanol, a hyfforddiant mewnol wedi'i hwyluso gan staff yr ysgol ei hun neu hyfforddwyr allanol.

Mae'r CydAAA ac uwch arweinwyr yn chwarae rhan ganolog mewn datblygu medrau staff, yn seiliedig ar ddealltwriaeth drwyadl o anghenion disgyblion unigol ac anghenion y garfan gyfan. Maent yn cysylltu'n agos ag asiantaethau allanol i drefnu hyfforddiant i staff sy'n eu galluogi i gefnogi'n llwyddiannus ystod werthfawr o ymyriadau wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu medrau lleferydd ac iaith disgyblion, er enghraifft, neu i fodloni anghenion ffisiotherapi disgyblion yn ddyddiol.

O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn, mae gwybodaeth fanwl gan staff am anghenion ac amgylchiadau disgyblion. Defnyddiant y ddealltwriaeth hon i drefnu ystod eang o ymyriadau ac ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae staff addysgu yn

hyblyg ac yn dra medrus wrth addasu'r ddarpariaeth i sicrhau bod hyn yn rhoi i bob plentyn yr hyn y mae ei angen arno ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys addasiadau i'r cwricwlwm, sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas ar gyfer 'seibiant' o wersi pan fydd ei angen arnynt, datblygu systemau gwobrwyo personoledig sy'n adeiladu ar ddiddordebau a dyheadau disgyblion eu hunain, a sicrhau bod yr holl staff yn gyson wrth iddynt gymhwyso'r strategaethau hyn.

Mae staff ar bob lefel yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i arwain hyfforddiant ysgol gyfan yn seiliedig ar eu meysydd a'u harbenigedd unigol, ac i rannu'u gwybodaeth am ddisgyblion unigol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae cydlynydd lles emosiynol yr ysgol wedi cyflwyno hyfforddiant ar anogaeth emosiynol i staff er mwyn cynorthwyo'u gwaith gyda disgyblion a rhieni. Mae athrawon o ganolfan anogaeth yr ysgol a'r dosbarth meithrin yn gweithio gyda staff mewn ysgolion ar draws yr awdurdod lleol i rannu'u dealltwriaeth o sut i gefnogi disgyblion ag AAA ar sail strategaethau profedig.

Mae'r cyfleoedd hyn sydd wedi'u cynllunio'n dda, ar gyfer dysgu proffesiynol yn cysylltu'n agos â threfnu rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol ac â'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad. Mae meysydd cyfrifoldeb ac arbenigedd penodol gan yr holl staff cymorth yn ychwanegol at y cymorth dysgu a ddarparant i ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion, er enghraifft, neu ar gyfer cydlynu cymorth yr ysgol ar gyfer lles emosiynol ar draws yr ysgol.

Mae'r dosbarthu rolau yn effeithiol iawn ar draws y tîm staff, a gefnogir gan ddatblygiad a hyfforddiant addas ar gyfer staff, yn nodwedd nodedig o waith yr ysgol. Mae'n hyrwyddo medrau'r holl staff yn llwyddiannus iawn ac yn datblygu tîm cydlynus sy'n glir ynglŷn â'u rolau ac yn ymfalchïo yn y cyfraniad a wnânt at les disgyblion a'r cynnydd y maent yn ei wneud yn eu dysgu.

**Deilliannau**

O ganlyniad i'r gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol a ddarperir gan staff yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAA a'r rheini sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn siarad yn huawdl ac yn agored am yr anawsterau a wynebant yn eu dysgu, a'r modd y mae'r strategaethau y mae'r ysgol yn eu defnyddio wedi'u helpu i oresgyn y rhain.

74 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, gall yr holl staff gael hyfforddiant i fodloni anghenion disgyblion AAA, gan gynnwys staff gweinyddol a staff ategol perthnasol, er enghraifft goruchwylwyr arholiadau, goruchwylwyr canol dydd, a staff gofalu. Yn yr ysgolion hyn, mae'r holl staff yn hyderus eu bod yn deall anghenion disgyblion a bod y medrau ganddynt i fynd i'r afael â'r rhain.

Yn **Ysgol Gyfun Tredegar**, mae tîm o staff cymorth ymroddedig a gwybodus yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu cymorth dysgu a lles arbenigol ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae disgwyliadau uchel gan uwch arweinwyr a'r CydAAA ar gyfer y tîm cymorth dysgu ac maent yn eu hannog i ymgymryd â rolau arwain yn eu maes arbenigedd penodol. I gyflawni hyn, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol helaeth ar gyfer y tîm cymorth dysgu. Mae staff cymorth yn cymryd perchnogaeth o'r mentrau y maent yn eu harwain ac yn gweithio'n agos gydag athrawon i gyfrannu at gynllunio darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. O ganlyniad, maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi'u grymuso i arwain cymorth personol a chymorth dysgu effeithiol iawn ar gyfer disgyblion ag AAA.

Yn ogystal, mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i oruchwylwyr arholiadau i sicrhau eu bod yn darparu trefniadau mynediad effeithiol i ddisgyblion ag AAA yn ystod arholiadau. Mae athrawon yn defnyddio'r trefniadau hyn yn ystod arholiadau mewnol neu brofion mewn gwersi fel bod disgyblion ag AAA yn ymgyfarwyddo â gweithdrefnau i'w cynorthwyo o dan amodau arholiad. Mae uwch aelodau staff a'r CydAAA yn ystyried trefniadau arholiadau yn ofalus er mwyn dileu rhwystrau a allai gael effaith negyddol ar les a llwyddiant disgyblion ag AAA. Er enghraifft, gan ddibynnu ar angen, mae'r disgyblion hyn yn sefyll eu harholiad mewn ystafell ar wahân os ydynt yn teimlo bod amodau arholiad arferol yn heriol. Mae'r cynllunio gofalus hwn i ddatblygu dealltwriaeth yr holl staff o anghenion disgyblion ag AAA yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth gorau posibl wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

75 Mewn llawer o'r ysgolion â dosbarth arbenigol neu ganolfan adnoddau yr ymwelwyd â nhw, mae'r cydweithio agos rhwng staff yn helpu datblygu medrau'r holl staff sy'n gweithio gyda disgyblion ag AAA. Er enghraifft, mae staff o uned arbenigol 'Canolfan y Bont' yn Ysgol Bro Pedr yn cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff ar ddefnyddio storïau cymdeithasol wrth weithio gyda disgyblion ag ASA. Yn Ysgol Gynradd Maendy, mae staff sy'n gweithio yng nghanolfan anogaeth yr ysgol yn darparu arweiniad yn rheolaidd i staff addysgu prif ffrwd ar ymagweddau ar gyfer gweithio gyda disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Yn Ysgol Gynradd Parcyrhun, ceir cysylltiadau cryf iawn rhwng staff sy'n gweithio yn yr uned arbenigol ar y safle ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw ac mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae'r CydAAA a'r athro sy'n gyfrifol am yr uned yn cyfathrebu'n effeithiol i sicrhau bod y disgyblion sy'n mynychu sesiynau prif ffrwd yn gallu ymdopi'n dda. Mae athro'r disgyblion byddar yn cyfarfod â'r athrawon prif ffrwd yn unigol bob wythnos i gynllunio gyda'i gilydd. Mae'r cydweithio hwn yn helpu'r holl staff i ddatblygu'u medrau i gynorthwyo anghenion disgyblion â nam ar eu clyw.

### Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

76 Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd disgyblion ag AAA yn ofalus, ac yn addasu'u darpariaeth yn unol â hynny. Yn yr ysgolion hyn, mae hunanwerthuso effeithiol yn deillio o ddealltwriaeth

gadarn o anghenion pob disgybl a pharodrwydd i addasu'r ddarpariaeth, lle bo angen, i sicrhau y gallant barhau i wneud cynnydd yn unol â'u galluoedd. Mae'r ymagwedd hon yn llywio hyfforddiant staff yn dda. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn adolygu anghenion disgyblion a set medrau staff cymorth a staff addysgu yn rheolaidd i sicrhau bod cymorth yn hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol.

77 Yn Ysgol Gynradd Sirol Blaen y Cwm, mae hunanwerthuso effeithiol wedi helpu gwella mapio darpariaeth yr ysgol a sicrhau deilliannau cryfach ar gyfer disgyblion ag AAA.

**Astudiaeth achos 11: Ysgol Gynradd Sirol Blaen y Cwm**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Sirol Blaen y Cwm yn gwasanaethu cymunedau Brynmawr a Nantyglo yn awdurdod lleol Blaenau Gwent. Yn Ionawr 2019, roedd 314 o ddisgyblion tair i un ar ddeg oed ar y gofrestr. Mae 32.5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 18.4%. Mae AAA gan oddeutu 18% o ddisgyblion, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae datganiad o AAA gan ychydig iawn o ddisgyblion.

**Gweithredu**

Pan ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn 2015, nododd, er bod CAUau gan nifer fawr o ddisgyblion, nad oedd y rhain bob amser yn cael yr effaith a ddymunir ar godi safonau ar gyfer y disgyblion hyn. I fynd i'r afael â hyn, aeth y pennaeth a'i thîm arwain ati i adolygu'r holl CAUau yn systematig. Arweiniodd y broses hon at weithredu map darpariaeth diwygiedig ar gyfer yr ysgol gyfan, sy'n nodi'n llwyddiannus y ddarpariaeth sydd ar gael i'r holl ddisgyblion, yr ymyriadau sydd eu hangen ac unrhyw gymorth penodol y gall disgyblion unigol fod ei angen.

Mae'r mapio darpariaeth ysgol gyfan a ddatblygwyd gan y CydAAA yn gryfder sylweddol yng ngwaith yr ysgol. Mae'r mapio yn pennu disgwyliadau clir o'r holl staff ac mae wedi sicrhau dealltwriaeth fanwl o'r ffordd orau i gynorthwyo'r holl ddisgyblion. Mae'r map darpariaeth yn cynnwys tair lefel:

- Lefel un yw'r ymagwedd ysgol gyfan at addysgu 'ansawdd yn gyntaf'. Mae hyn yn amlinellu disgwyliadau'r holl athrawon a'r staff cymorth i ddarparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel.
- Mae lefel dau yn nodi ymyriadau targedig a strwythuredig â meini prawf mynediad ac ymadael clir er mwyn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd cyflymach.
- Yn olaf, lefel tri yw lle mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth neu strategaethau penodol ac wedi'u teilwra i gynorthwyo meysydd AAA dynodedig. Byddai CAU gan y disgyblion hyn.

Mae'r strwythur hwn wedi'i rannu'n effeithiol gyda'r holl staff sy'n deall yn glir eu cyfrifoldeb i ddarparu addysgu 'ansawdd yn gyntaf' ar gyfer y disgyblion ag AAA yn eu dosbarth. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi lleihau'n sylweddol nifer y disgyblion y mae angen CAUau arnynt.

**Deilliannau**

Mae mapio darpariaeth yr ysgol wedi bod yn effeithiol iawn o ran gwella ansawdd addysgu ar gyfer disgyblion ag AAA, ac wedi sicrhau bod athrawon yn atebol am gynnydd yr holl ddisgyblion. Fel rhan o'u mapio darpariaeth, mae rhaglenni ymyrraeth yn effeithiol iawn ac yn cael effaith gryf ar gynnydd disgyblion yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n ymgymryd ag ymyriadau yn gwneud cynnydd cryf a chynaledig.

78 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn gwerthuso'u cynlluniau cwricwlwm yn rheolaidd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion unigol neu garfannau gwahanol o ddisgyblion ag AAA.

Yn **Ysgol Gyfun Dŵr y Felin**, mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanwerthuso yn canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn rhannu'u gweledigaeth o safonau uchel o les a chynhwysiant yn glir iawn gyda'r holl staff drwy ddysgu proffesiynol rheolaidd a chyfarfodydd ysgol gyfan. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n fanwl ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o AAA. Yn ogystal, maent yn addasu ac yn datblygu'u cwricwlwm yn rheolaidd i ddarparu'n llwyddiannus ar gyfer anghenion pob unigolyn.

Un enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae'r tîm arwain wedi ymrwymo i addasu'u cwricwlwm cyfnod allweddol 3 bob blwyddyn i ddarparu ar gyfer anghenion unigol pob grŵp blwyddyn. Bum mlynedd yn ôl, mewn trafodaeth gydag ysgolion yn eu clwstwr cynradd, nododd yr ysgol y byddai nifer sylweddol o ddisgyblion yn gweld trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn anodd. Arweiniodd hyn at ddylunio model cwricwlwm newydd a oedd yn cynnwys newid yr addysgu mewn dau o'u dosbarthiadau. Mae'r dosbarthiadau hyn yn darparu addysgu a chyfleoedd dysgu pwrpasol yn seiliedig ar anghenion penodol unigolion. Gwna'r ysgol addasiadau rheolaidd i'r model cwricwlwm sy'n cynorthwyo'r holl ddisgyblion ag AAA i wneud cynnydd cryf iawn tuag at eu targedau.

Yn **Ysgol Bro Pedr**, cyflwynodd arweinwyr adran medrau bywyd wyth mlynedd yn ôl i ddarparu ar gyfer disgyblion oed uwchradd ag anghenion dwys ac anawsterau ymddygiadol, ar ôl nodi nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion ag AAA. Agorodd yr adran ar gyfer dau ddisgybl yn wreiddiol, ond mae wedi datblygu'n sylweddol ers hynny a bellach mae'n darparu ar gyfer 24 o ddisgyblion.

Mae'r adran yn rhan o sbectrwm o drefniadau cwricwlaidd hyblyg i fodloni gwahanol anghenion disgyblion ag AAA ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynllunio'r amserlen yn ofalus i alluogi defnyddio arbenigedd a chryfderau staff yn greadigol, er mwyn bodloni anghenion dysgu disgyblion. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd i ddilyn ystod o gymwysterau yn ychwanegol at y cyfleoedd i gael profiad o bynciau TGAU, fel hanes neu gelf, heb orfod sefyll arholiad ar ddiwedd y cwrs. Hefyd, mae disgyblion ag AAA yn elwa o'r cyfle i ddilyn cyrsiau arholiadau ar adegau gwahanol yn eu gyrfa ysgol.

79 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn adlewyrchu ethos cynhwysol yr ysgol yn dda. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i staff ystyried a myfyrio ar y ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion ag AAA. Gallai'r rhain gynnwys holiaduron staff, disgyblion a rhieni, cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau y rhoddir digon o amser i ystyried y disgyblion hyn, cyfarfodydd rheolwyr llinell, adroddiadau i lywodraethwyr, adroddiadau hunanwerthuso adrannau ac ysgol gyfan, a chynlluniau gweithredu. Mae staff ar bob lefel yn myfyrio ac yn addasu'r ddarpariaeth yn fedrus i sicrhau ei bod yn bodloni anghenion pob disgybl.

80 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n addas ar y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ag AAA. Er enghraifft, mae arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu ar waith yn cynnwys ffocws penodol ar y disgyblion hyn, a cheir trefniadau effeithiol i sicrhau bod cynlluniau athrawon yn cynnwys cyfleoedd digonol i ddisgyblion fynd i'r afael â'u targedau. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn ddigon trwyadl. Nid yw'r ysgolion hyn yn monitro ansawdd cymorth addysgu a ddarperir gan staff cymorth yn ddigon da, nac yn defnyddio'r ystod eang o dystiolaeth a gesglir o weithgareddau fel arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith i fonitro pa mor dda mae'r addysgu yn cynorthwyo disgyblion ag AAA i gyflawni'u targedau. Yn ogystal, mewn lleiafrif o ysgolion, mae prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n rhy gul ar yr ymyriadau a ddarparant, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar yr effaith ar gynnydd disgyblion dros gyfnod.

# Atodiad 1: Beth ydym yn ei wybod am ddisgyblion ag AAA yng Nghymru?

Mae'r term AAA yn cynnwys ystod eang o anawsterau dysgu ac anableddau. Fel arfer, mae'r rhain yn disgyn i o leiaf un o'r pedwar o feysydd bras canlynol:

- cyfathrebu a rhyngweithio
- gwybyddiaeth a dysgu
- ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol
- synhwyraidd a/neu gorfforol

Mae ysgolion yng Nghymru yn defnyddio'r categorïau canlynol i adrodd ar ddisgyblion ag AAA ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD):

- anawsterau dysgu cymedrol
- anawsterau dysgu cyffredinol
- anawsterau dysgu difrifol
- anawsterau dysgu dwys a lluosog
- dyspracsia
- dyscalcwlia
- dyslecsia
- anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)
- anhwylderau'r sbectrwm awtistig
- anawsterau corfforol a meddygol
- nam ar y clyw
- nam ar y golwg
- nam amlsynnwyr
- anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Ar hyn o bryd, nodir bod AAA gan dros 105,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir neu ddisgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) (Gweler Tabl 1a). Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 22% o'r holl ddisgyblion. Caiff anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion ag AAA yng Nghymru eu bodloni mewn ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd neu ysgolion pob oed a gynhelir. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mynychu dosbarthiadau arbenigol neu ganolfannau adnoddau o fewn yr ysgol brif ffrwd a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae oddeutu'r un gyfran o ddisgyblion yn mynychu ysgolion arbennig a gynhelir neu'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol. Mae cyfran y disgyblion ag AAA sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a gynhelir neu ddarpariaeth EOTAS wedi cynyddu ychydig dros gyfnod, ond fe wnaeth ostwng fymryn yn 2018-2019. Bu cynnydd bychan ond cyson yng nghyfran y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig neu ddarpariaeth EOTAS (Gweler Tabl 1a).

### Tabl 1a: Disgyblion ag AAA yn ôl math o ddarpariaeth 2009-2010 i 2018-2019[1]

| Blwyddyn | Ysgolion meithrin, cynradd uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir | Ysgolion arbennig a gynhelir | Darpariaeth EOTAS | Yr holl ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir a darpariaeth EOTAS (yn cynnwys y rhai heb AAA) | Cyfran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir a darpariaeth EOTAS gydag AAA |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018-2019 | 98,996 | 4,980 | 1,571 | 470,182 | 22.4% |
| 2017-2018 | 100,797 | 4,828 | 1,396 | 468,721 | 22.8% |
| 2016-2017 | 100,852 | 4,725 | 1,241 | 467,910 | 22.8% |
| 2015-2016 | 100,603 | 4,540 | 1,300 | 468,067 | 22.7% |
| 2014-2015 | 100,513 | 4,444 | 1,195 | 467,091 | 22.7% |
| 2013-2014 | 100,965 | 4,338 | 1,059 | 466,306 | 22.8% |
| 2012-2013 | 99,472 | 4,319 | 1,032 | 466,088 | 22.5% |
| 2011-2012 | 98,784 | 4,254 | 922 | 466,969 | 22.3% |
| 2010-2011 | 95,749 | 4,181 | 888 | 467,215 | 21.6% |
| 2009-2010 | 94,887 | 4,117 | 808 | 468,136 | 21.3% |

Ffynhonnell: StatsCymru (2019e; 2019g) a Chyfrifiad Disgyblion EOTAS[2]
[1] Caiff disgyblion eu cyfrif o dan eu 'prif' fath neu fath 'cyfredol' o ddarpariaeth.

### Tabl 1b: Dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol mewn ysgolion prif ffrwd, 2009-2010 i 2018-2019

| Blwyddyn | Nifer y dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol | Nifer yr ysgolion prif ffrwd gyda dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol | Nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol[2] |
|---|---|---|---|
| 2018-2019 | 491 | 247 | 6,233 |
| 2017-2018 | 478 | 249 | 4,555 |
| 2016-2017 | 490 | 254 | 5,569 |
| 2015-2016 | 507 | 262 | 6,474 |
| 2014-2015 | 520 | 269 | 6,553 |
| 2013-2014 | 521 | 278 | 5,840 |
| 2012-2013 | 531 | 274 | 6,668 |
| 2011-2012 | 512 | 276 | 6,459 |
| 2010-2011 | 564 | 280 | 7,262 |
| 2009-2010 | 525 | 289 | 6,766 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion[3]
[2] Gall disgyblion gael eu cyfrif ddwywaith os ydynt yn mynychu dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol mewn mwy nag un ysgol.

O'r disgyblion hynny ag AAA sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, nid oedd gan 87.3% ddatganiad o AAA yn 2018-2019, ac roedd datganiad gan 12.7%. Fe wnaeth cyfran y disgyblion â datganiad leihau flwyddyn ar ôl blwyddyn o 2009-2010 hyd nes 2015-2016, ond mae wedi dechrau cynyddu ers hynny. Dros yr un cyfnod, mae canran gyffredinol y disgyblion ag AAA wedi codi o 21.2% i 22.2%.

---

[2] Cyfrifiad Disgyblion EOTAS: Data heb ei gyhoeddi a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, cwblhawyd y cyfrifiadau gan Estyn
[3] Data heb ei gyhoeddi a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, cwblhawyd y cyfrifiadau gan Estyn

**Tabl 2: Cyfrannau o ddisgyblion ag AAA a chyfrannau o ddisgyblion â datganiadau o AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, 2009-2010 i 2018-2019**


| Blwyddyn | Cyfanswm disgyblion | Cyfanswm disgyblion ag AAA | Cyfanswm disgyblion â datganiadau o AAA | Canran o gyfanswm y disgyblion ag AAA | Canran o gyfanswm y disgyblion â datganiadau o AAA | Canran o ddisgyblion ag AAA â datganiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018-2019 | 468,398 | 103,976 | 13,168 | 22.2% | 2.8% | 12.7% |
| 2017-2018 | 467,112 | 105,625 | 12,895 | 22.6% | 2.8% | 12.2% |
| 2016-2017 | 466,508 | 105,577 | 12,602 | 22.6% | 2.7% | 11.9% |
| 2015-2016 | 466,555 | 105,143 | 12,434 | 22.5% | 2.7% | 11.8% |
| 2014-2015 | 465,704 | 104,957 | 12,437 | 22.5% | 2.7% | 11.8% |
| 2013-2014 | 465,081 | 105,303 | 12,530 | 22.6% | 2.7% | 11.9% |
| 2012-2013 | 464,868 | 103,791 | 12,738 | 22.3% | 2.7% | 12.3% |
| 2011-2012 | 465,943 | 103,038 | 13,098 | 22.1% | 2.8% | 12.7% |
| 2010-2011 | 466,172 | 99,930 | 13,407 | 21.4% | 2.9% | 13.4% |
| 2009-2010 | 467,141 | 99,004 | 13,767 | 21.2% | 2.9% | 13.9% |
| *Ffynhonnell: StatsCymru (2019f)* | | | | | | |

Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod cyfran y disgyblion ag AAA â datganiadau yn amrywio gryn dipyn rhwng awdurdodau lleol ac nad yw'n cydberthyn yn uniongyrchol i gyfran gyffredinol y disgyblion ag AAA yn yr awdurdod hwnnw (StatsCymru, 2019f). Nid yw nifer uwch o ddatganiadau mewn un ysgol neu awdurdod lleol yn golygu o angenrheidrwydd felly bod nifer uwch o ddisgyblion ag anghenion sylweddol, ond yn hytrach mae'n adlewyrchu trefniadau gwahanol rhwng awdurdodau lleol i fodloni anghenion addysgol arbennig disgyblion.

## Pa mor dda mae disgyblion ag AAA yn cyflawni?

Mae gwerthuso deilliannau ar gyfer disgyblion ag AAA yn broses gymhleth iawn y mae angen iddi ystyried ystod eang o wybodaeth. Yn genedlaethol, mae'r data sydd ar gael i werthuso cyflawniad disgyblion ag AAA yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad yn erbyn fframweithiau fel y cyfnod sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol, neu arholiadau fel TGAU. Mae asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn seiliedig ar y mesurau hyn yn dangos bod deilliannau ar gyfer llawer o ddisgyblion ag AAA yn gyson islaw deilliannau eu cyfoedion heb AAA (Llywodraeth Cymru 2018). Er enghraifft, yn 2018, ar ddiwedd y cyfnod sylfaen, dim ond rhyw 48% o ddisgyblion ag AAA wnaeth gyflawni'r deilliant disgwyliedig o gymharu â 94% o'u cyfoedion heb AAA. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, dim ond rhyw 20% o ddisgyblion ag AAA wnaeth gyflawni'r dangosydd Lefel 2 mewn Saesneg a mathemateg o gymharu â 68% o gyfoedion heb AAA.

**Graff 1: Cyrhaeddiad disgyblion ag AAA, 2018**




Ffynhonnell: StatsCymru (2019a; 2019b; 2019c; 2019d)

O ystyried yr heriau y mae llawer o ddisgyblion ag AAA yn eu hwynebu yn eu dysgu, nid yw'r anghysondeb hwn yn syndod ynddo'i hun. I lawer o'r disgyblion hyn, mae cynnydd mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol neu'r nodau personol a gynhwysir mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn darparu dangosyddion mwy cywir o gynnydd a chyflawniad. Er nad oes data cenedlaethol ar gael i ddangos cynnydd yn erbyn y mesurau hyn, mae deilliannau arolygu yn dangos bod llawer o ddisgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy eu haddysg, mae'r darlun hwn yn mynd yn llai cadarnhaol o lawer, gydag arolygwyr yn adrodd am gynnydd cryf neu dda ar gyfer disgyblion ag AAA mewn rhyw un o bob tair ysgol uwchradd yn unig a arolygwyd dros y tair blynedd diwethaf.

Mae materion yn ymwneud â phresenoldeb a gwahardd o'r ysgol yn parhau i gael effaith negyddol ar allu disgyblion ag AAA i ddysgu a gwneud cynnydd. Er enghraifft, ar lefel ysgol gynradd, mae disgyblion â datganiadau o AAA yn fwy tebygol o fod yn ddisgyblion sy'n absennol yn gyson nag unrhyw grŵp arall o ddisgyblion, ac maent yn rhannu'r gyfradd absenoldeb gyffredinol uchaf gyda disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2019a). Ar lefel ysgol uwchradd, mae gan ddisgyblion yn y categori Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy gyfraddau uwch o absenoldeb cyson nag unrhyw grŵp arall, a'r gyfradd ail uchaf o absenoldeb cyffredinol ar ôl disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru 2019a). Yn yr un modd, mae'r gyfradd gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol yn sylweddol uwch ar gyfer disgyblion ag AAA nag ar gyfer disgyblion heb AAA. Er enghraifft, mae plentyn yn y categori Gweithredu gan yr Ysgol a mwy ryw 16 gwaith yn fwy tebygol o gael ei wahardd yn barhaol o'r ysgol na phlentyn heb AAA (Llywodraeth Cymru 2019b).

# Atodiad 2: Nodyn ar derminoleg

Dechreuodd y term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ gael ei ddefnyddio’n gyffredin gyntaf yn dilyn cyhoeddi arweiniad Llywodraeth Cymru (2006) ‘Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion’. Sefydlwyd y term gan yr arweiniad i gwmpasu’r holl blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion dysgu yn fwy na mwyafrif eu cyfoedion. Fel y cyfryw, roedd yn cwmpasu llawer o grwpiau dysgwyr gwahanol, gan gynnwys y rhai ag AAA. Mae grwpiau eraill yr ymdriniwyd â nhw yn yr arweiniad yn cynnwys:

- plant o deuluoedd sydd mewn amgylchiadau anodd
- disgyblion anabl
- disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- plant sy’n ceisio lloches a phlant sy’n ffoaduriaid
- plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- plant gweithwyr mudol
- disgyblion mwy abl a thalentog
- plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol
- disgyblion ag anghenion gofal iechyd
- disgyblion sy’n feichiog neu’n rhieni ifanc
- plant a phobl ifanc sy’n troseddu
- gofalwyr ifanc
- disgyblion lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol
- disgyblion sy’n gwrthod mynd i’r ysgol a disgyblion sydd â ffobia am fynd i'r ysgol
- disgyblion sy’n perfformio neu ddisgyblion â chyflogaeth

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r term ADY wedi’i ddefnyddio’n eang ymhlith ysgolion ac awdurdodau lleol, yn rhannol i hyrwyddo’r ymagweddau cynhwysol a amlinellwyd yn yr arweiniad, ond hefyd i ystyried y newidiadau arfaethedig yn y Ddeddf ADY. Er i’r arweiniad ddweud yn glir y byddai’r term ‘AAA’ yn parhau i gael ei ddefnyddio i nodi dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, cymhleth a/neu benodol fel y pennwyd yn Neddf Addysg 1996 a’r Cod Ymarfer AAA, yn ymarferol, mae’r ddau derm yn cael eu defnyddio’n ymgyfnewidiol yn aml. O ganlyniad, mae amrywio mawr ar hyn o bryd o ran y modd y mae ysgolion ac ALlau ledled Cymru yn eu defnyddio.

Yn 2016, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (2016) ddiwygio ac ailgyhoeddi ei arweiniad ‘Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion’, gan ddisodli’r term ADY gyda ‘disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol’. Mae hyn wedi helpu egluro’r gwahaniaeth rhwng disgyblion y bydd eu hanghenion yn cael eu cefnogi gan y fframwaith deddfwriaethol newydd, a’r rheini y gall fod angen mwy o gymorth arnynt na mwyafrif eu cyfoedion ar ryw gyfnod yn eu haddysg.

## Atodiad 3: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio'r canlynol:

- ymweliadau ag ystod o dair ar ddeg o ysgolion cynradd, dwy ysgol pob oed ac wyth ysgol uwchradd, ac un ysgol arbennig
- canfyddiadau o arolygiadau ysgol diweddar o Fedi 2016-Gorffennaf 2019
- data perthnasol, fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad

Fe wnaethom ddewis ysgolion i ymweld â nhw ar ôl ystyried eu cyd-destun ieithyddol, lleoliad daearyddol a phroffil economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan arolygiadau diweddar. Yn yr arolygiadau hynny, dangosodd yr holl ysgolion a gynhwysir yma ddeilliannau a darpariaeth gryf ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelom â nhw yn cynnal dosbarth arbenigol neu ganolfan adnoddau a ariennir gan awdurdod lleol.

Wrth ymweld ag ysgolion, bu arolygwyr:

- yn cyfweld ag uwch arweinwyr, gan gynnwys CydAAA a'r rhai â chyfrifoldebau penodol am ddisgyblion ag AAA
- yn cyfweld ag athrawon a staff cymorth
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu profiad o ysgol
- yn craffu ar ystod o ddogfennaeth berthnasol, yn cynnwys CAUau, proffiliau un dudalen, dogfennau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chofnodion o ddysgu proffesiynol

Hoffem ddiolch i'r ysgolion canlynol a gynorthwyodd yr adolygiad thematig hwn:

- Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful
- Ysgol Gynradd Blaen y Cwm, Blaenau Gwent
- Ysgol Gynradd Brynnau, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Gyfun Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgol Gynradd Cogan, Bro Morgannwg
- Ysgol Gynradd Cwm Glas, Abertawe
- Ysgol Gynradd Cwm Ifor, Caerffili
- Ysgol Gyfun Dŵr y Felin, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Gaer, Casnewydd
- Ysgol Gynradd Maendy, Torfaen
- Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre, Wrecsam
- Ysgol Gymunedol St Cenydd, Caerffili
- Ysgol Gyfun Tredegar, Blaenau Gwent
- Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields, Caerffili
- Ysgol Gynradd Tywyn, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Bro Pedr, Ceredigion
- Ysgol Bae Baglan, Castell-nedd Port Talbot

- Ysgol Gwenffrwd, Sir y Fflint
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd
- Ysgol Gymuned Rhosybol, Ynys Môn
- Ysgol Gynradd Bontnewydd, Gwynedd
- Ysgol Gynradd Parcyrhun, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Uwchradd Tywyn, Gwynedd

# Atodiad 4: Camau'r Cod Ymarfer – yr Ymateb Graddedig

## Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar

Pan fydd ymarferydd addysg gynnar sy'n gweithio gyda'r plentyn o ddydd i ddydd, neu'r CydAAA, yn canfod bod gan ddisgybl AAA, dylai baratoi ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol a strategaethau'r lleoliad, neu'n wahanol iddynt.

## Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy

Nodweddir Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy gan gyfraniad gwasanaethau cymorth allanol a all helpu ysgolion addysg gynnar trwy roi cyngor ar CAUau a thargedau newydd, darparu asesiadau mwy arbenigol, rhoi cyngor ar ddefnyddio strategaethau neu ddeunyddiau newydd neu arbenigol ac, mewn rhai achosion, darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau penodol.

## Gweithredu gan yr Ysgol

Pan fydd athro dosbarth neu'r CydAAA yn canfod bod gan blentyn AAA, dylai'r athro dosbarth ddarparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol a strategaethau arferol yr ysgol ac yn wahanol iddynt.

## Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

Mae cais am help gan wasanaethau lleol yn debygol o ddilyn penderfyniad a wneir gan y CydAAA a chydweithwyr, trwy ymgynghori â'r rhieni, mewn cyfarfod i adolygu CAU y plentyn.  Dylai ysgolion ymgynghori bob amser ag arbenigwyr pan fyddant yn gweithredu ar ran plentyn trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

## Cais gan ysgol am asesiad statudol

Lle gwneir cais am asesiad statudol gan ysgol i awdurdod lleol, bydd y plentyn wedi dangos bod cryn achos i bryderu.  Bydd yr awdurdod lleol yn ceisio tystiolaeth gan yr ysgol fod unrhyw strategaeth neu raglen a weithredwyd ar gyfer y plentyn dan sylw wedi parhau am gyfnod amser rhesymol heb lwyddiant ac y rhoddwyd cynnig ar ddulliau gwahanol, neu'r rhesymau pam na ddigwyddodd hyn.

## Datganiadau AAA

Pan fydd yr holl gyngor y gofynnwyd amdano ar gyfer yr asesiad statudol wedi dod i law, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am lunio datganiad.  Gall yr awdurdod lleol benderfynu bod graddfa anhawster dysgu'r plentyn a natur y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ddiwallu AAA y plentyn yn golygu bod gofyn i'r awdurdod lleol bennu darpariaeth addysgol arbennig y plentyn trwy ddatganiad.

## Nodyn yn lle datganiad

Cyn pen pythefnos ar ôl cwblhau’r asesiad statudol, mae’n rhaid i’r AALl benderfynu a fydd yn gwneud datganiad ai peidio.  Gallai’r awdurdod lleol ystyried cyflwyno nodyn yn lle datganiad.  Gall fod yn briodol i fformat y nodyn yn lle datganiad ddilyn fformat statudol y datganiad yn fras, er bod gwahaniaeth rhwng statws cyfreithiol y ddwy ddogfen.

# Atodiad 5: Trosolwg o newidiadau i ddeddfwriaeth AAA

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018) yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag AAA a'r drefn o asesu pobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

## Amcanion y Ddeddf

1. Darparu darn o ddeddfwriaeth unedig i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darparwyr a sefydliadau addysg bellach;
2. Hyrwyddo proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
3. Cael system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

## Ategir yr amcanion gan yr 11 nod canlynol:

### 1 Cyflwyno'r term 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'

Mae'r Ddeddf yn disodli'r termau 'anghenion addysgol arbennig (AAA)' ac 'anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD)' gyda'r term newydd 'anghenion dysgu ychwanegol (ADY)'.

### 2 Ystod oedran 0 i 25

Bydd un system ddeddfwriaethol yn ymwneud â'r cymorth a roddir i blant a phobl ifanc rhwng 0 i 25 oed sydd ag ADY. Mae hyn yn lle'r ddwy system ar wahân sy'n gweithredu ar hyn o bryd i gefnogi plant a phobl ifanc oed ysgol gorfodol sydd ag AAA, a phobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag AAD.

### 3 Cynllun unedig

Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol (y cynllun datblygu unigol (CDU) i ddisodli'r amrywiaeth bresennol o gynlluniau AAA neu AAD statudol ac anstatudol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion ac addysg bellach.

### 4 Mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc

Mae'r Ddeddf yn mynnu y dylid ystyried barnau disgyblion bob amser fel rhan o'r broses gynllunio, ynghyd â barnau eu rhieni/gofalwyr. Mae'n hollbwysig fod plant a phobl ifanc yn gweld y broses gynllunio fel rhywbeth a wneir gyda nhw yn hytrach iddyn nhw.

**5 Dyheadau uchel a deilliannau gwell**

Bydd pwyslais y CDUau ar drefnu darpariaeth sydd yn cyflawni deilliannau pendant sy'n cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cyflawni ei botensial llawn.

**6 System symlach a llai gwrthwynebol**

Dylai'r broses o gynhyrchu a diwygio CDU fod yn symlach o lawer nag ydyw ar hyn o bryd gyda datganiadau AAA.

**7 Mwy o gydweithio**

Mae'r system newydd yn annog cydweithio a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod y cymorth iawn yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni deilliannau cadarnhaol.

**8 Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau yn gynharach**

Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau, lle ceir anghytundebau ynglŷn â CDU neu'r ddarpariaeth mae'n ei chynnwys, bod y mater yn cael ei ystyried a'i ddatrys ar y lefel fwyaf lleol bosibl.

**9 Hawliau apêl clir a chyson**

Lle na ellir datrys anghytundebau ynglŷn â chynnwys CDU ar y lefel leol, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc sydd â hawl i CDU (a'u rhieni/gofalwyr yn achos y rhai dan 16 oed) yr hawl i apelio i dribiwnlys.

**10 Y Cod ADY**

Bydd y Cod ADY yn darparu set o baramedrau clir, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill hynny sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu o fewn y set honno o baramedrau.

**11 System ddwyieithog**

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod rhaid i wasanaethau ystyried p'un a oes angen darpariaeth dysgu ychwanegol yn Gymraeg ar blentyn neu unigolyn ifanc. Os oes, rhaid dogfennu hyn yn y CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

## Atodiad 6: Rhestr o astudiaethau achos a chameos

| **Pennod 1: Cymorth effeithiol i ddisgyblion ag AAA** | | |
|---|---|---|
| **Rhif tudalen** | **Ysgol** | **Testun yr astudiaeth achos** |
| 9 | Ysgol Gyfun Bryntirion | Mae asesiadau cadarn yn galluogi staff i nodi ymyriadau addas |
| 11 | Ysgol Gynradd Brynnau | Mae prosesau asesu cychwynnol trwyadl yn cynorthwyo staff yn effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ag AAA |
| 16 | Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley | Arferion cyson ac effeithiol i fonitro ac adolygu cynnydd disgyblion ag AAA |
| **Cameos** | | |
| 13 | Ysgol Bae Baglan | |
| 14 | Ysgol Gynradd Parcyrhun | |
| 16 | Ysgol Gynradd Bontnewydd | |

| **Pennod 2: Ymgysylltu ag eraill i gynorthwyo disgyblion ag AAA** | | |
|---|---|---|
| 19 | Ysgol Gynradd Gaer | Mae'r ysgol yn gweithio'n eithriadol o dda gyda rhieni, gofalwyr, a theuluoedd i gefnogi disgyblion ag AAA pan fyddant yn ymuno â'r ysgol |
| 22 | Ysgol Gymuned Rhosybol | Mae gwybodaeth fanwl am amgylchiadau teuluol disgyblion yn helpu sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig i'w lles ac ymgysylltiad â dysgu |
| 24 | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Trefniadau wedi'u cydlynu'n dda ar draws pob un o'i hysgolion cynradd partner i hwyluso pontio i ddisgyblion ag AAA |
| 27 | Ysgol Gynradd Cogan | Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol |

| | | |
|---|---|---|
| 32 | Ysgol Gynradd Cwm Ifor, Ysgol Gymunedol St Cenydd, Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields | Partneriaeth arloesol gyda'r ysgol arbennig leol i rannu arfer dda a datblygu dysgu proffesiynol i gefnogi disgyblion ag AAA |
| **Cameos** | | |
| 21 | Ysgol Gymraeg Gwenffrwd | |
| 24 | Ysgol Uwchradd Fitzalan | |
| 27 | Ysgol Gynradd Brynnau | |
| 27 | Ysgol Gynradd Gaer | |
| 31 | Ysgol Rhosybol | |
| 32 | Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre | |
| 32 | Ysgol Gynradd Maendy | |
| 36 | Ysgol Uwchradd Tywyn | |
| 36 | Ysgol Gynradd Blaen y Cwm | |
| 37 | Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | |
| **Pennod 3: Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer AAA** | | |
| 42 | Ysgol Bae Baglan | Ar ôl creu'r ysgol newydd, mae arweinwyr a rheolwyr yn Ysgol Bae Baglan wedi gweithio'n llwyddiannus i roi strwythurau cadarn ar waith i hyrwyddo cyflawniad disgyblion ag AAA |
| 45 | Ysgol Gynradd Gymunedol Rhosymedre | Mae rhaglen ddatblygedig o ddysgu proffesiynol ar draws yr ysgol yn datblygu'r holl staff yn ymarferwyr hyderus, gwybodus |
| 48 | Ysgol Gynradd Sirol Blaen y Cwm | Mae hunanwerthuso effeithiol wedi helpu gwella mapio darpariaeth yr ysgol a sicrhau deilliannau cryfach ar gyfer disgyblion ag AAA |
| **Cameos** | | |
| 38 | Ysgol Gynradd Maendy | |
| 38 | Ysgol Gymraeg Gwenffrwd | |
| 39 | Ysgol Gynradd Tywyn | |
| 40 | Ysgol Gynradd Bontnewydd | |
| 41 | Ysgol Uwchradd Tywyn | |
| 41 | Ysgol Uwchradd Fitzalan | |
| 44 | Ysgol Gyfun Dŵr y Felin | |
| 47 | Ysgol Gyfun Tredegar | |
| 49 | Ysgol Gyfun Dŵr y Felin | |
| 50 | Ysgol Bro Pedr | |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | Dulliau o weithio gyda disgyblion sy'n hyrwyddo cyfranogiad gweithgar disgyblion mewn cynllunio, pennu nodau ac adolygu cynnydd |
| **Canolfan adnoddau arbenigol** | Dosbarth arbenigol mewn ysgol prif ffrwd a ariennir gan yr awdurdod lleol i ddarparu cymorth targedig ar gyfer anhawster neu anabledd dysgu penodol, neu ystod o anawsterau neu anableddau dysgu |
| **CAU** | Cynllun addysg unigol.  Dogfen sy'n cynorthwyo athrawon i gynllunio ar gyfer cynnydd disgyblion ag AAA.  Yn gyffredinol, maent yn pennu targedau personol, y cymorth a ddarperir i helpu'r disgybl i gwrdd â'r targedau, a sut bydd yr ysgol yn adolygu cynnydd disgyblion yn erbyn targedau. |
| **CydAAA** | Cydlynydd anghenion addysgol arbennig – athro sy'n cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA mewn ysgolion |
| **Cymunedau yn Gyntaf** | Rhaglen Llywodraeth Cymru oedd Cymunedau yn Gyntaf â ffocws ar leihau tlodi parhaus yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Roedd ar waith o 2001 i 2018. |
| **Datganiad AAA** | Rhoddir datganiadau AAA i ddisgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth.  Mae'r datganiad yn ei gwneud hi'n ofyniad cyfreithiol y dylai'r disgybl dderbyn y ddarpariaeth a ddynodwyd. |
| **Dechrau'n Deg** | Cynllun Llywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg gyda'r nod o wella cyfleoedd bywyd plant o dan bedair oed a'u teuluoedd mewn cymunedau difreintiedig ledled Cymru.  Mae'n cynnig gofal plant rhad ac am i rieni cymwys ar gyfer plant dwy i dair oed, cymorth rhianta, gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. |
| **Proffil un dudalen** | Offeryn i gynorthwyo cynllunio sy'n seiliedig ar yr unigolyn.  Mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig am y disgybl a'r ffordd y mae'n dymuno cael cymorth. |
| **Sefydliadau trydydd sector** | Sefydliadau nad ydynt yn perthyn i'r sector cyhoeddus na'r sector preifat, er enghraifft, elusennau, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd |
| **Staff cymorth** | Cynorthwywyr addysgu neu gynorthwywyr cymorth dysgu |
| **Trothwy Lefel 1** | Nifer o gymwysterau ar Lefel 1 cywerth â phum TGAU gradd A*-G |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru (2006) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (Cylchlythyr 47/2006)

Llywodraeth Cymru (2016) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (Dog 203/2016). [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf [Darllenwyd ar 13 Medi 2018]

Llywodraeth Cymru (2018) *Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cyflawniad-academaidd-yn-ol-nodweddion-disgyblion [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion. Caerdydd*: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-yn-ol-nodweddion-disgyblion [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cod-ymarfer-anghenion-addysgol-arbennig-cymru.pdf

Prydain Fawr (1996) *Deddf Addysg 1996*. Llundain: Y Llyfrfa

Prydain Fawr (2000) *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000*. Llundain: Y Llyfrfa

StatsCymru (2019a) *Dangosyddion CA4 yn ôl blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion addysgol arbennig)*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/ks4indicators-by-year-sen [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

StatsCymru (2019b) *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl maes dysgu, blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion Addysgol Arbennig)*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/nationallevelresults-by-areaoflearning-year-sen [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

StatsCymru (2019c) *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl pwnc, blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion Addysgol Arbennig).* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/nationallevelresults-by-subject-year-sen [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

StatsCymru (2019d) *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl pwnc, blwyddyn a darpariaeth AAA (Anghenion Addysgol Arbennig).* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects/nationallevelresults-by-subject-year-sen [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

StatsCymru (2019e) *Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a llywodraethu ysgolion.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-schoolgovernance [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

StatsCymru (2019f) *Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-localauthorityregion-provision [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]

StatsCymru (2019g) *Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-sector-year [Darllenwyd ar 3 Hydref 2019]